# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## HSS (2)-17-06 (p.4)

### Dyddiad: 30 Tachwedd 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
### Teitl: Is-ddeddfwriaeth: Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007

#### Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r cyfle y gofynnodd y Pwyllgor amdano i ystyried Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 cyn iddynt fynd ymlaen i gael eu hystyried o dan Reol Sefydlog 24.

#### Crynodeb

2. Mae Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 yn darparu ar gyfer gwahardd ysmygu mewn mangreoedd a cherbydau penodol yng Nghymru trwy bwerau a neilltuwyd yn Neddf Iechyd 2006. Daeth deddfwriaeth debyg i rym yn yr Alban ym mis Mawrth 2006 a daw i rym yng Ngogledd Iwerddon ym mis Ebrill 2007 ac yn Lloegr yn haf 2007.

#### Y Cyd-destun

3. Ym mis Mehefin 2004, pleidleisiodd y Cynulliad o blaid sefydlu pwyllgor traws-bleidiol ad hoc ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus. Gorchwyl y Pwyllgor oedd ystyried peryglon mwg ail-law i iechyd pobl ac effaith ariannol cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 10 Mai 2005. Ei brif argymhelliad oedd y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol bwyso ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) am bwerau i'w alluogi i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a lleoedd gwaith caeedig o fewn cyfnod o ddwy neu dair blynedd. Ar 25 Mai 2005, pleidleisiodd yr ACau o blaid yr argymhellion hyn.

4. Ar 5 Gorffennaf 2005, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bod Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn argymhellion y Pwyllgor a'i bod yn cynnig cyflwyno gwaharddiad eang ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a lleoedd gwaith caeedig cyn gynted ag y cr pwerau i wneud hynny gan Lywodraeth y DU. Derbyniodd Deddf Iechyd 2006, a drosglwyddai'r pwerau angenrheidiol, y Cydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2006. Ar 21 Gorffennaf 2006, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad ar reoliadau drafft ar gyfer Cymru, a daeth i ben ar 13 Hydref 2006.

## Ystyriaeth

5. Mae'r Rheoliadau'n cyfateb yn fras i'r ddeddfwriaeth debyg yn yr Alban a'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn Lloegr. Mae'r Rheoliadau'n diffinio "caeedig" a "sylweddol gaeedig" yng nghyd-destun mangreoedd di-fwg. Maent yn eithrio mathau penodol o fannau neu fannau penodol ynddynt rhag gorfod bod yn ddi-fwg, yn arbennig, llety preifat mewn mangre sy'n lle gwaith; ystafelloedd gwely dynodedig mewn gwestai, tai llety ac ati; ystafelloedd dynodedig mewn rhai mathau o lety preswyl h.y. cartrefi gofal, hosbisau ac unedau meddwl preswyl; a rhai mathau o gyfleusterau ymchwil a phrofi. Bydd rhai cerbydau'n gorfod bod yn ddi-fwg, sef yn arbennig cerbydau cludiant cyhoeddus a cherbydau sy'n cael eu defnyddio fel lle gwaith gan fwy nag un person. Mae'r rheoliadau'n pennu hefyd ffurf a chynnwys arwyddion 'dim ysmygu' a ble y dylent gael eu dangos. Maent yn dynodi mai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yw awdurdodau gorfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg, maent yn darparu ar gyfer trosglwyddo achosion o un awdurdod gorfodi i'r llall ac yn pennu ffurf yr hysbysiadau cosb benodedig.

6. Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn frwd o blaid deddfwriaeth ddi-fwg ac roeddynt ar y cyfan, yn fodlon  rheoliadau. Amgaeir adroddiad ar yr ymgynghoriad isod.

7. Yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, cynigir gwelliant i gadarnhau na fydd cerbydau preifat yn gorfod bod yn ddi-fwg. Bydd y pwyntiau a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad am sefyllfa gweithwyr gofal cartref sy'n ymweld hartrefi ysmygwyr yn cael eu trafod yn y ddogfen gyfarwyddyd i'r GIG, awdurdodau lleol a'r sector gofal. Ymdrinnir ?hryderon ynghylch gorfodi'r gwaharddiad ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y protocol gorfodi sy'n cael ei lunio ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Goblygiadau Ariannol

8. Ymdrinnir  goblygiadau hyn yn fanwl ym mharagraffau 6-13 y Memorandwm Esboniadol. Mae £4.09 miliwn wedi'i neilltuo yn 2006/07 i dalu am waith paratoi (gwella'r gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, ymgyrch gyhoeddusrwydd, cyngor i fusnesau, paratoadau llywodraeth leol ar gyfer gorfodi a gwaith monitro). Mae £3.94 miliwn pellach wedi'i neilltuo yn amodol yn 2007/08 i gynnal gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, cyhoeddusrwydd, gwaith gorfodi llywodraeth leol ac ymchwil i'r effeithiau.

## Amserlen Weithredu

9. Ar ?'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol ystyried y Rheoliadau, y bwriad yw eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 12 Rhagfyr 2006, gan y Pwyllgor Deddfau ar 16 Ionawr 2007 a chan y Cyfarfod Llawn ar 23 Ionawr 2007. Ar yhoeddi canllawiau manwl ac arwyddion i fusnesau a chynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd, yr amcan yw dod ? Rheoliadau i rym ar 2 Ebrill 2007.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor Pwnc

10. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y papur hwn, y Rheoliadau drafft, y Memorandwm Esboniadol drafft, yr Arfarniad Rheoliadol drafft a'r adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft hyn.

Brian Gibbons AC
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Swyddog Cyswllt: Ginny Blakey, Y Gangen Polisi Tybaco, Is-adran Gwella Iechyd y Cyhoedd, ff 029 2082 3131

**At: Y Pwyllgor Busnes**
**Oddi wrth: Brian Gibbons AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Memorandwm Eeboniadol:**
**Iechyd Cymru**
**Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-Fwg (Cymru) 2007**

## Crynodeb

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwahardd ysmygu mewn mangreoedd a cherbydau penodol yng Nghymru trwy bwerau a neilltuwyd yn Neddf Iechyd 2006.

1. Mae'r memorandwm hwn yn cael ei gyflwyno mewn cysylltiad ?heoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007 i Bwyllgor Busnes y Cynulliad, yn unol  heol Sefydlog 24.6.

2. Cyflwynir copi o'r offeryn gyda'r Memorandwm hwn.

## Pwerau Galluogi

3. Mae'r pwerau sy'n galluogi'r offeryn hwn yn cael eu rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol ac maent wedi'u cynnwys yn adrannau 2 (5), 3, 5 (1) a (2), 6, 8 (3), 10 a 79 (3) ac ym mharagraff 4 Atodlen 1 Deddf Iechyd 2006 ac yn adran 26 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae’r pwerau o dan Ddeddf Iechyd 2006 wedi’u rhoi i’r Cynulliad Cenedlaethol ac mae’r pwerau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraerg 1993 wedi’u trosglwyddo i’r Cynulliad Cenedalethol. O dan drefniadau 007, rydym yn rhagweld y bydd y ddeddfwriaeth yn dilyn y weithdrefn gadarnhau. Mae'r offeryn yn cynnwys cyfeiriadau at gosbau a symiau gostyngol. Mae'r pwerau i bennu maint cosbau a symiau gostyngol trwy reoliadau yn eiddo i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. Amcan yr Adran Iechyd yn y DU yw gwneud Rheoliadau Di-fwg (Cosbau a Symiau Gostyngol) mewn pryd ar gyfer Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) fydd yn cael eu gwneud ganol mis Ionawr.

## Effaith

4. Mae’r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gwahardd ysmygu mewn mangreoedd a cherbydau penodol yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau'n cyfateb yn fras i ddeddfwriaeth debyg yn yr Alban a'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn Lloegr. Mae'r Rheoliadau'n diffinio "caeedig" a "sylweddol gaeedig" yng nghyd-destun mangreoedd di-fwg. Maent yn eithrio mathau penodol o fannau neu fannau penodol ynddynt rhag gorfod bod yn ddi-fwg, yn arbennig llety preifat mewn mangre sy'n lle gwaith; ystafelloedd gwely dynodedig mewn gwestai, tai llety ac ati; ystafelloedd dynodedig mewn rhai mathau o lety preswyl h.y. cartrefi gofal, hosbisau ac unedau meddwl preswyl; a rhai mathau o

gyfleusterau ymchwil a phrofi. Bydd rhai cerbydau'n gorfod bod yn ddi-fwg, sef yn arbennig cerbydau cludiant cyhoeddus a cherbydau sy'n cael eu defnyddio fel lle gwaith gan fwy nag un person. Mae'r rheoliadau'n pennu hefyd ffurf a chynnwys arwyddion 'dim ysmygu' a ble y dylent gael eu dangos. Maent yn dynodi mai cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru yw awdurdodau gorfodi'r ddeddfwriaeth ddi-fwg, maent yn darparu ar gyfer trosglwyddo achosion rhwng un awdurdodau gorfodi a'r llall ac yn pennu ffurf yr hysbysiadau cosb benodedig.

## Targed ar gyfer gweithredu

5. Y bwriad yw gwneud y Rheoliadau arfaethedig ar 23 Ionawr 2007 ac oddynt ddod i rym ar 2 Ebrill 2007.

## Goblygiadau Ariannol

## Costau i Lywodraeth y Cynulliad

6. Mae £1.16 miliwn o Linell Wariant Rheoli Tybaco y Gyllideb a £412,000 o Linell Wariant Her Iechyd Cymru wedi'u neilltuo yn 2006/07 i wella gweithgarwch rhoi'r gorau i ysmygu cyn y gwaharddiad. Bydd y gweithgareddau hyn yn cynnwys llinell gymorth, Diwrnod Dim Ysmygu, adnoddau hunan-gymorth a nawdd i Wasanaeth Rhoi’r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan. Mae symiau tebyg wedi'u neilltuo'n amodol ar gyfer 2007-2008 pan ddaw'r gwaharddiad i rym.

7. Mae cyhoeddusrwydd mewn cysylltiad ? gwaharddiad yn cynnwys hysbysebion ar y cyfryngau torfol ar beryglon mwg ail-law i iechyd pobl; hysbysebion yn y cyfryngau torfol ar hysbysu'r cyhoedd bod y ddeddfwriaeth yn dod i rym; gwefan benodol i roi gwybodaeth a chyngor ar y ddeddfwriaeth; tair ymgyrch bostio i fusnesau ac un ymgyrch bostio i bob aelwyd yng Nghymru; ac adnoddau ar gyfer gwaith cysylltiadau cyhoeddus cefnogol. Mae £1.45 miliwn o gyllid wedi'i neilltuo o Linell Wariant Her Iechyd Cymru i gefnogi’r ymgyrch gyhoeddusrwydd yn 2006/07.

8. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i ddarparu llinell ff bobl allu riportio achosion o dorri'r rheoliadau. Mae £20,000 wedi'i neilltuo o Linell Wariant Her Iechyd Cymru yn 2006/07 ar gyfer ei sefydlu, ac mae ?60,000 wedi'i gynnwys yn amodol yn llinell wariant Her Iechyd Cymru ar gyfer 2007/08.

9. Bydd angen gosod arwyddion ym mhob mangre a cherbyd a fydd yn ddi-fwg oherwydd y ddeddfwriaeth. Bydd yr arwyddion yn cael eu printio a'u dosbarthu gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae £20,000 o Linell Wariant Rheoli Tybaco a £40,000 o Linell Wariant Her Iechyd Cymru wedi'u neilltuo ar gyfer 2006/07.

10. Mae strategaeth ymchwil ar gyfer monitro a gwerthuso effaith y gwaharddiad wedi'i llunio. Yn ogystal onitro newidiadau yn agweddau'r cyhoedd a data economaidd, bydd y gwaith hwn yn cynnwys ymchwilio i (1) faint yn llai neu'n fwy o fwg tybaco ail-law y daw plant i gysylltiad ag ef a (2) y newid yn agweddau ac ymddygiad o ganlyniad i'r gwaharddiad ar ysmygu yn y mannau lle mae pobl yn ysmygu ac yfed. Mae £190,000 wedi'i neilltuo ar gyfer y gwaith hwn yn 2006/07 yn Llinell Wariant Her Iechyd Cymru, a £310,000 pellach yn y ffigurau amodol ar gyfer y Llinell Wariant hon

yn 2007/08.

## Costau i Awdurdodau Lleol

11. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol Cymru er mwyn recriwtio a hyfforddi swyddogion gorfodi ac i gynnal gwaith cyhoeddusrwydd am y ddeddfwriaeth arfaethedig gyda busnesau yng Nghymru. Mae £800,000 wedi'i neilltuo i'r cyfrif Mangreoedd Cyhoeddus Di-fwg o fewn Llinell Wariant Hybu Iechyd ar gyfer 2006/07, a chaiff £2 miliwn ei drosglwyddo o'r Llinell Wariant hon i Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth Leol ar gyfer 2007-08.

## Costau i Gyrff Eraill, Unigolion a Busnesau

12. Bydd yn ofynnol i fusnesau unigol osod arwyddion yn eu mangreoedd a'u cerbydau di-fwg. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn darparu'r arwyddion hyn iddynt am ddim.

## Yr Arfarniad Rheoliadol

13. Mae arfarniad rheoliadol wedi'i gynnal mewn cysylltiad ? Offeryn hwn ac y mae'n amgaeedig.

## Ymgynghori

### ?Rhanddeiliaid

14. Yn 2004, cafodd Pwyllgor trawsbleidiol o'r Cynulliad ei sefydlu ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus i ystyried y dystiolaeth ddiweddaraf ar bynciau perthnasol fel peryglon mwg tybaco ail-law i iechyd pobl ac effaith economaidd gwahardd ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus gan glywed tystiolaeth amrywiaeth o randdeiliaid. Ym mis Mai 2005, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad yn argymell bod Llywodraeth y Cynulliad yn gofyn i Lywodraeth y DU am y pwerau i gyflwyno gwaharddiad eang ar ysmygu mewn lleoedd gwaith a mannau cyhoeddus. Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor, cyhoeddodd Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi gwaharddiad eang ar waith cyn gynted ag y cr pwerau dan sylw ac mai'r Mesur Iechyd fyddai'r cyfrwng ar gyfer cael y pwerau hynny.

15. Ym mis Mehefin 2005, cyhoeddodd Adran Iechyd y DU a Swyddfa Cymru ymgynghoriad ar y mesurau di-fwg yn y Mesur Iechyd. Gofynnwyd i ymatebwyr anfon eu hymatebion i'r ddogfen ymgynghori at yr Adran Iechyd ond gofynnwyd i ymatebwyr o Gymru anfon eu hatebion at Lywodraeth y Cynulliad. Derbyniwyd dros 57,000 o ymatebion o Gymru a Lloegr i'r ymgynghoriad, gyda thros 90 y cant ohonynt o blaid gwaharddiad llwyr ar ysmygu ym mhob lle gwaith a man cyhoeddus.

16. Derbyniodd Deddf Iechyd 2006 Gydsyniad y Frenhines ar 19 Gorffennaf 2006. Ar 21 Gorffennaf, cychwynnodd Llywodraeth y Cynulliad ymgynghoriad 12 wythnos ar ei chynigion manwl mewn cysylltiad ? pwerau a roddwyd iddi gan Ddeddf Iechyd 2006 ac ar y Rheoliadau Mangreoedd etc Di-

fwg (Cymru) drafft.

17. Cafodd cop? o'r ddogfen ymgynghori, y Rheoliadau drafft a'r Arfarniad Rheoliadol drafft eu hanfon at dros 680 o garfanau perthnasol yng Nghymru a Lloegr gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff iechyd a gofal cymdeithasol, busnesau (gan gynnwys y sector croesawiaeth a hamdden) a'r sector gwirfoddol. Rhoddwyd y dogfennau ymgynghori hefyd ar wefan arbennig www. gwaharddsmygucymru.co.uk

18. Cafwyd ymatebion gan 129 o gyrff a mudiadau a 59 o unigolion. Amgaeir adroddiad ar yr ymgynghoriad gyda’r Arfarniad Rheoliadol yn Atodiad D.

19. Yng ngoleuni'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, cynigir gwelliant i gadarnhau na fydd cerbydau preifat yn gorfod bod yn ddi-fwg. Bydd y materion a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad am sefyllfa gweithwyr gofal cartref sy'n ymweld ?hartrefi ysmygwyr yn cael eu trafod yn y ddogfen gyfarwyddyd i'r GIG, awdurdodau lleol a'r sector gofal. Ymdrinnir ?hryderon ynghylch gorfodi'r gwaharddiad ar drafnidiaeth gyhoeddus yn y protocol gorfodi sy'n cael ei lunio ar y cyd gan Lywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## ?Phwyllgorau Pwnc

20. Hysbyswyd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y Rheoliadau hyn drwy restr deddfwriaeth arfaethedig ar 28 Medi 2006 (HSS (2)-13-06, papur 2a: eitem HSS 31 (06)). Bydd y Rheoliadau'n destun craffu manwl a bydd y Pwyllgor yn eu hystyried ar 30 Tachwedd 2006.

21. Oherwydd natur drawsbynciol y Rheoliadau, hysbyswyd Cydgysylltwyr Rhaglenni Deddfwriaethol y Pwyllgorau Pwnc eraill hefyd amdanynt ar 20 Medi 2006. Hyd yma, nid oes unrhyw bwyllgor arall wedi gofyn am gael craffu’n fanwl ar y Rheoliadau.

## Hysbysu o dan Gyfarwyddeb 98/34/EC

22. Mae Cyfarwyddeb 98/34/EC yn pennu trefn hysbysu er sicrhau bod rheoliadau technegol ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau'r gymdeithas wybodaeth yn dryloyw. Mae'n ofynnol rhoi fersiwn ddrafft o'r rheoliad technegol i'r Comisiwn a'i gadael am dri mis er mwyn i wledydd yr UE allu mynegi pryderon posibl am unrhyw beryglon i fasnach rydd. Ar ?ael gwybod gan yr Adran Masnach a Diwydiant y gallai'r arwyddion 'peidio ag ysmygu' ddod o fewn cwmpas y Gyfarwyddeb, a chan gofio i'r Comisiwn gael ei hysbysu am y rheoliadau di-fwg yn yr Alban ac Iwerddon cyn eu gwneud, hysbyswyd y Comisiwn am y Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) drafft ar 17 Hydref 2006.

23. Os bydd un neu fwy o wledydd yr UE a/neu'r Comisiwn yn cynnig 'barn fanwl' (sef y dylai'r mesur dan sylw gael ei newid er mwyn lleihau neu ddiddymu unrhyw beth allai rwystro nwyddau rhag symud yn rhydd neu mewn cysylltiad ? rheolau ar wasanaethau, symud gwasanaethau'n ddirwystr neu ryddid gweithredwyr gwasanaethau i ymsefydlu), rhaid i'r wlad sy'n cyhoeddi'r rheoliadau roi adroddiad i'r Comisiwn ar y camau y mae'n bwriadu eu cymryd fel ymateb i'r farn fanwl a fynegwyd ac ni chaiff wneud y rheoliad am gyfanswm o chwe mis ar 'r Comisiwn dderbyn yr hysbysiad. Mae hynny'n golygu, os caiff 'barn fanwl' ei mynegi ar y rheoliadau Cymreig, ni fydd yn

bosibl rhoi'r gwaharddiad ar waith yng Nghymru ar 2 Ebrill 2007. Ni chafodd sylwadau na barn fanwl eu derbyn ar reoliadau di-fwg Iwerddon a'r Alban.

## Y Drefn a Argymhellir

24. Yn amodol ar farn y Pwyllgor Busnes, rwy'n argymell bod y Rheoliadau hyn yn mynd gerbron y Cyfarfod Llawn o dan y weithdrefn safonol er mwyn i'r Aelodau gael cyfle i’w trafod.

25. Bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig (cyhyd ag sy'n gymwys):

- yn rhoi'r ystyriaeth briodol i egwyddor cyfle cyfartal i bawb (Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Adran 120);
- yn gyson ?hynllun datblygu cynaliadwy'r Cynulliad (Adran 121);
- yn gyson ?hyfraith y Gymuned (Adran 106);
- yn gyson ? ddeddfwriaeth ar hawliau dynol (Adran 107);
- yn gyson ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol sy'n ymrwymo Llywodraeth y DU a'r Cynulliad (Adran 108);

26. Mae’r wybodaeth yn y memorandwm hwn wedi'i chlirio gan yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

Cyfreithiwr drafftio: Mark Partridge (est 5073)
Pennaeth yr Is-Adran: Chris Tudor-Smith (est 5787)
Swyddog Polisi drafftio: Ginny Blakey (est 3131).

Brian Gibbons AC, Tachwedd 2006
Y Gweinidog Dros Iechyd A Gwasanaethau Cymdeithasol

## Dyddiad:

## Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007: arfarniad rheoliadol

## 1. Diben ac effaith arfaethedig y mesur

1.1 Diben ac effaith arfaethedig y mesur yw diogelu iechyd y cyhoedd drwy gyflwyno gwaharddiad cynhwysfawr ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus a gweithleoedd.

1.2 Cydnabuwyd ers amser maith mai ysmygu yw’r prif achos afiechyd a marwolaethau cynamserol a allai gael ei atal yng Nghymru. Amcangyfrifir bod ysmygu’n gysylltiedig ?wy na 6,000 o farwolaethau ymhlith ysmygwyr bob blwyddyn yng Nghymru. Mae ysmygu wedi’i enwi hefyd fel y prif reswm dros y bwlch mewn disgwyliad oes rhwng y cyfoethog a’r tlawd [Jarvis a Wardle, 1999]. Am y rheswm hwn, mae lleihau’r niwed sy’n gysylltiedig ag ysmygu yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chamau i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

1.3 Mae yna dystiolaeth glir a diymwad bod ysmygu’n niweidio iechyd rhai nad ydyn nhw’n ysmygu.

Ym 1998, cyhoeddodd Pwyllgor Gwyddonol y DU ar Dybaco ac Iechyd (SCOTH) adroddiad pwysig a ddaeth i'r casgliad fod datgeliad i fwg ail-law yn achosi canser yr ysgyfaint, a bod cynnydd o 20-30 y cant yn y risg i'r rhai sy'n cael eu datgelu iddo dros gyfnod hir. Daeth SCOTH i'r casgliad hefyd fod mwg ail-law yn achosi clefyd y galon mewn oedolion nad ydyn nhw'n ysmygu, a'i fod yn achosi clefydau anadliadol, marwolaeth yn y crud, clefydau'r glust ganol a phyliau asthma ymhlith plant [SCOTH, 1998]. Gwelodd adolygiad diwygiedig ar yr astudiaethau perthnasol gan SCOTH yn 2004 [SCOTH, 2004] fod y dystiolaeth ynghylch natur beryglus datgelu i fwg tybaco wedi'i chyfnerthu. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod mwg ail-law yn risg ddifrifol i iechyd y cyhoedd.

1.4 Cafodd Pwyllgor y Cynulliad ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus ei sefydlu ym mis Mehefin 2004 i bwyso a mesur risgiau mwg ail-law ar gyfer iechyd y cyhoedd a'r effaith ar yr economi a g cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus. Ar  ymgynghori ?146;r cyhoedd, cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 10 Mai 2005. Prif argymhelliad yr adroddiad oedd y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU i gael y pwerau a fyddai'n ei alluogi i gyflwyno gwaharddiad ar ysmygu mewn gweithleoedd a mannau cyhoeddus caeedig (gydag esemptiadau penodedig) a hynny o fewn cyfnod amser o ddwy neu dair blynedd. Pleidleisiodd Aelodau'r Cynulliad o blaid yr argymhellion yma, a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

1.5 Mae'r Mesur Iechyd, y bydd Senedd y Deyrnas Unedig yn gorffen ei ystyried yn fuan, yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl fannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig yng Nghymru a Lloegr fod yn ddi-fwg. Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud ag agweddau ar y ddeddfwriaeth, gan gynnwys esemptiadau ar gyfer disgrifiadau penodedig o fangreoedd; dynodi mannau di-fwg ychwanegol sydd heb eu cynnwys gan y diffiniad yn y Ddeddf, mewn achosion lle byddai'r personau a fyddai'n bresennol yn debyg o gael eu datgelu i fwg pe na baent yn cael eu dynodi; pennu ffurf cynnwys a dull arddangos arwyddion dim ysmygu; a dynodi awdurdodau gorfodi.

## 2. Asesiad risg

2.1 Mae tybaco yn gynnyrch ac iddo beryglon unigryw. Fel y nodwyd uchod, ysmygu yw un o'r ffactorau mwyaf niweidiol yn hanes iechyd gwael Cymru. Mae mesurau i ddiogelu unigolion a'r gymdeithas rhag effaith tybaco, drwy ddeddfu a thrwy fathau eraill o reoleiddio a rheoli, yn gydran hanfodol mewn unrhyw strategaeth i reoli tybaco. Does dim lefel ddiogel o ddatgeliad i fwg ail-law ac, er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud mewn amgylcheddau di-fwg drwy weithredu gwirfoddol, mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir mai deddfwriaeth gynhwysfawr yw'r unig ffordd i wneud cynnydd arwyddocaol tuag at ddiogelu iechyd y cyhoedd.

2.2 Mae nifer fawr o astudiaethau wedi'u cynnal ar y risgiau penodol sy'n gysylltiedig wg tybaco amgylcheddol. Mae canlyniadau'r astudiaethau yma yn cael eu hystyried yn llawer manylach o dan gostau a buddion posibl y gwahanol opsiynau. Mae'r risgiau sy'n gysylltiedig lwyddo i roi'r polisi ei hun ar waith yn ymrannu'n ddau faes yn bennaf: cydymffurfio/gorfodi, a'r effaith economaidd ar fusnesau, yn enwedig yn y sector lletygarwch.

## 3. Yr Opsiynau

3.1 Cafodd nifer o opsiynau eu hystyried wrth i gynigion polisi Llywodraeth y Cynulliad ar y mater yma gael eu datblygu. Mae’r rhain yn cynnwys opsiynau sy’n golygu deddfu ac opsiynau eraill.

### Opsiwn 1 – Ymagwedd wirfoddol

3.2 Opsiwn 1 yw parhau i ddefnyddio ymagwedd wirfoddol i leihau mwg ail-law. Byddai cyflogwyr a busnesau’n cael eu hannog i gymryd camau i greu mwy o fannau di-fwg, ond fyddai dim gofyniad statudol i greu mannau di-fwg na gorfodaeth statudol ar eu cyfer. Byddai Llywodraeth y Cynulliad yn parhau ?146;i rhaglen o fentrau i annog pobl ifanc i beidio echrau ysmygu, i annog a helpu ysmygwyr i roi’r gorau iddi, ac i godi ymwybyddiaeth o’r risgiau o gael eich datgelu i fwg ail-law. O gofio mor araf fu’r newid gwirfoddol yn y maes yma yn y gorffennol, yn enwedig yn y sector lletygarwch, mae’n debyg mai cynnydd cyfyngedig a manteision cyfyngedig yn unig a fyddai’n deillio o’r opsiwn yma.

### Opsiwn 2 – Deddfu ond gydag Esemptiad ar gyfer y Sector Lletygarwch

3.3 Byddai ysmygu’n cael ei gyfyngu at ei gilydd mewn mannau cyhoeddus caeedig, ond byddai esemptiad cyflawn neu rannol i’r sector lletygarwch trwyddedig. I gyd-fynd £146;r dull yma fe fyddai amrywiaeth o gamau eraill yn cael eu cymryd i fynd i’r afael ag ysmygu fel y nodwyd uchod. Byddai’r cyfyngiadau rhannol yma yn sicrhau gwell cynnydd yn nifer y mannau cyhoeddus di-fwg nag Opsiwn 1. Er hynny, mae bariau a chlybiau yn fannau lle ceir datgeliadau arbennig o fawr i fwg tybaco amgylcheddol ar hyn o bryd [SCOTH, 1998].

### Opsiwn 3 – Deddfwriaeth Ddi-fwg Gynhwysfawr

3.4 Byddai’r holl fannau cyhoeddus a gweithleoedd caeedig yn ddi-fwg. Ar seiliau trugarog yn unig y byddai esemptiadau’n cael eu caniat? Unwaith eto, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i fynd ar drywydd amrywiaeth o gamau i leihau mynychder ysmygu. Gellid disgwyl mai’r dull yma fyddai’n sicrhau’r gostyngiadau mwyaf o ran cael eich datgelu i fwg ail-law. Drwy greu diwylliant lle nad ysmygu yw’r norm cymdeithasol mwyach, fe fyddai hefyd yn debyg o arwain at ostyngiad yn lefelau ysmygu gweithredol.

## 4. Y Buddion

4.1 Yn 2004, cafodd Uned Ymchwil Economeg Iechyd (HERU) Prifysgol Aberdeen ei chomisiynu gan NHS Health Scotland, ar ran Gweithrediaeth yr Alban a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i ddarparu adolygiad o’r dystiolaeth ddiweddaraf ar effeithiau deddfwriaeth a chyfyngiadau di-fwg ar iechyd ac ar yr economi [HERU, 2005]. Yr astudiaeth yma yw’r dadansoddiad mwyaf cyfoes a chynhwysfawr ar effaith debygol y ddeddfwriaeth ar ysmygu yn yr Alban a Chymru ac oherwydd hynny dyma sylfaen llawer o’r dadansoddiad cost-budd yn y papur yma.

4.2 Mae canlyniadau astudiaeth HERU yn hoelio sylw ar effaith gwaharddiad cynhwysfawr ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, gan fod gwaith yr astudiaethau cychwynnol wedi gweld mai ychydig yn unig o dystiolaeth oedd ar gael a fyddai’n caniat?amcangyfrif llawn o effaith cyfyngiadau llai ar iechyd a’r economi.

4.3 Cyfunodd yr astudiaeth adolygiad o’r llenyddiaeth ag ymarfer modelu er mwyn pennu effeithiau tebygol cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus yng nghyd-destun Cymru a’r Alban. HERU a wnaeth y gwaith adolygu llenyddiaeth, ac amcangyfrif model ar gyfer yr Alban. Wedyn cafodd Prifysgol Morgannwg ei his-gontractio gan HERU i ddyblygu’r model gan ddefnyddio data Cymreig lle'r oedd data Cymreig ar gael [Cohen, 2005].

4.4 Mae’r model wedi’i seilio ar waharddiad llwyr ar ysmygu ym mhob man gyhoeddus gan gynnwys gweithleoedd a chyfleusterau hamdden a lletygarwch. Gwaharddiad llwyr – yn hytrach na chyfyngiadau llai – sydd wedi’i fodelu am nad yw’n glir beth fyddai effeithiau gwaharddiad rhannol ar iechyd. Serch hynny, mae’r model yn cael ei ddefnyddio i fwydo’r amcangyfrifon o fuddion a chostau pob opsiwn isod. Rhoddodd y model amcangyfrifon isel, canol ac uchel ar gyfer yr effeithiau, ac mae’r amcangyfrif canol yn amcangyfrif ceidwadol o’r effaith fwyaf tebygol. Mae’r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer costau a buddion Opsiynau 1 a 2 yn adlewyrchu’r rhai a gafodd eu defnyddio yn yr Alban i ddatblygu’r ddeddfwriaeth yno.

4.5 Ar sail y llenyddiaeth sydd ar gael, ystyriodd yr astudiaeth amrywiaeth o effeithiau yn sgil cyfyngiadau ar ysmygu:

- Llai o ddatgelu i fwg tybaco amgylcheddol (ETS) yn y gweithle;
- Gostyngiad mewn ysmygu/cynnydd yn ymdrechion ysmygwyr gweithredol i roi’r gorau iddi;
- Gostyngiad yn nifer y marwolaethau yn sgil y mathau pwysig o glefydau;
- Lleihau costau trin clefydau sy’n gysylltiedig ag ysmygu;
- Effeithiau economaidd ar y sector lletygarwch.

4.6 Defnyddiodd astudiaeth HERU amcangyfrif canol ceidwadol (gostyngiad o 2%) o effaith polis? di-fwg ar fynychder ysmygu. O gofio mor bwysig yw sicrhau prawf cadarn o effaith gwaharddiad ar ysmygu, yr hyn sydd wedi’i wneud drwy’r broses fodelu i gyd yw defnyddio rhagdybiaethau a fydd yn tueddu i danddatgan buddion y gwaharddiad ar ysmygu ond peidio ?handdatgan y costau.

4.7 Opsiwn 1 – Ymagwedd Wirfoddol

## Buddion ar gyfer iechyd

Yn niffyg deddfwriaeth, y disgwyl yw mai ychydig iawn o ostyngiad a g?ei weld ar lefelau ysmygu gweithredol a goddefol. Ar sail y tueddiadau presennol, gallem ddisgwyl gweld lefelau ysmygu gweithredol yn gostwng ychydig bach ac oherwydd hynny, byddai unrhyw fuddion economaidd yn nhermau gwerth y bywydau a g?eu hachub neu arbedion ar gostau afiachedd yn ffracsiwn yn unig o’r buddion a geid drwy ddeddfu.

## Gwerth economaidd y bywydau a g?eu hachub

**O ganlyniad i lai o ddatgelu i fwg tybaco amgylcheddol (ETS):**

Ychydig iawn o fuddion a geid yn sgil llai o ddatgelu i ETS. Byddai parhau ?146;r ymagwedd wirfoddol yn golygu y byddai rhai mannau cyhoeddus sy’n caniat?ysmygu ar hyn o bryd yn dod yn ddi-fwg. Ar y sail honno, rhagdybiwyd mai manteision economaidd prin yn unig a g?eu cynhyrchu gan opsiwn 1 yn sgil gostwng y marwoldeb sy’n gysylltiedig ag ETS, sef 10% o’r hyn a geid drwy gyfrwng deddfwriaeth gynhwysfawr.

**O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:**

Does dim gostyngiad ychwanegol ym mynychder ysmygu wedi’i ragdybio o dan opsiwn 1. Mae unrhyw ostyngiad pellach ym mynychder ysmygu o dan ymagwedd wirfoddol barhaus yn debyg o ddeillio o barhau i reoli tybaco, a chan y bydd rheoli o’r fath yn digwydd o dan bob opsiwn, nid yw wedi’i gynnwys.

- Arbedion yng nghost ddynol afiechyd (arbedion afiachedd)

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Ceid gostyngiadau yn y costau afiachedd o ganlyniad i lefelau is o ETS. Rydym wedi rhagdybio mai 10% o’r gostyngiad a geid o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr fyddai’r gostyngiad yma, yn unol ?146;r gostyngiadau yn nifer y marwolaethau yn sgil datgelu i ETS.

**Arbedion adnoddau**

- Gostyngiad yng nghostau triniaethau’r GIG

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Yn unol ?146;r gostyngiad yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i lefelau is o ETS, rhagdybiwyd y byddai’r arbedion adnoddau yn 10% o’r arbedion a geid o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr.

b) O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:

Rhagdybir na fyddai gostyngiad pellach mewn ysmygu gweithredol o dan yr opsiwn hwn.

- Arbedion drwy leihau absenoldeb salwch

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Rhagdybir y byddai'n 10% o'r arbedion a amcangyfrifwyd ar gyfer polisi di-fwg.

b) O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:

Rhagdybir na fyddai gostyngiad pellach mewn ysmygu gweithredol o dan yr opsiwn hwn.

- Arbedion costau drwy ostwng perygl t?a gostwng costau glanhau ac addurno

Bach fyddai'r arbedion hyn o'u cymharu ?146;r arbedion o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr. Rhagdybir y bydden nhw yn 10% o'r hyn a geid o dan waharddiad.

- Cost mwy o egwyliau ysmygu mewn sefydliadau sydd heb bolisi ar hyn o bryd Pe bai'r cod gwirfoddol yn parhau, ychydig iawn o effaith a geid ar hyn, a rhagdybir felly y byddai'n 0.

## Effeithiau ar y Sector Lletygarwch

Y disgwyl yw na fyddai parhau ?146;r opsiwn di-ddeddfwriaeth presennol yn cael fawr o effaith ar y sector lletygarwch. Byddai cyfyngiadau ar ysmygu mewn tafarndai, bwytai a mannau eraill yn cael eu gadael ar gyfer disgresiwn lleol.

4.8 Opsiwn 2 – Deddfu ond gydag Esemptiad i'r Sector Lletygarwch

## (i) Buddion ar gyfer iechyd

Byddai bodolaeth deddfwriaeth ar gyfer llawer o fannau cyhoeddus yn cael mwy o effaith ar ostyngiadau mewn lefelau ysmygu gweithredol a goddefol na pharhau ?146;r ymagwedd wirfoddol. Er hynny, mae'r datgeliadau i ETS yn arbennig o drwm mewn bariau a chlybiau ac felly, oherwydd yr esemptiadau i'r sector hwn, fyddai'r effaith ddim mor fawr ag y byddai gyda deddfwriaeth gynhwysfawr. Gan hynny, byddai unrhyw fuddion economaidd yn nhermau gwerth y bywydau a g? eu hachub neu arbedion ar gostau afiachedd yn llai na'r rhai a geid drwy ddeddfwriaeth gynhwysfawr.

## Gwerth economaidd y bywydau a g?eu hachub

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Byddai cyfyngiadau rhannol yn arwain at gyfran fwy o gynnydd yn y mannau di-fwg o'i gymharu ? harhau ?146;r ymagwedd wirfoddol. O'r holl oedolion nad ydyn nhw'n ysmygu, dangosodd Arolwg Iechyd Cymru 2003/04 fod 17% o ddynion a 10% o fenywod yn dweud eu bod yn cael eu datgelu i fwg pobl eraill yn y gwaith, a soniodd 63% o ddynion o'i gymharu ?2% o fenywod eu bod yn cael eu datgelu i fwg pobl eraill mewn tafarndai. Gan hynny, byddai esemptio'r sector lletygarwch yn cyfyngu ar yr effaith ar ostyngiadau mewn datgelu i ETS. Rhagdybiwyd y byddai gwerth economaidd y bywydau a g?eu hachub o ganlyniad i'r gostyngiad yn y datgeliadau i ETS o dan yr opsiwn yma yn

25% o’r hyn a g?ei sicrhau o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr.

b) O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:

Mae ymchwil ar gyfyngiadau ar ysmygu a gafodd eu cyflwyno mewn mannau eraill (Chaloupka a Saffer, 1992) wedi nodi effaith wahanol ar ysmygu gweithredol rhwng deddfau awyr l?a chyfyngiadau yn y gweithle. Mae’r ymchwil yn awgrymu bod deddfau awyr l?yn sicrhau gostyngiad o 20% yn lefelau defnyddio sigaretau, o’i gymharu ? gostyngiad o 4-8% yn sgil cyfyngiadau llai sydd wedi’u seilio ar y gweithle. Nid yw’r naill na’r llall o’r ddau senario hyn yn cyfateb yn union i’r opsiynau deddfu sy’n cael eu hystyried yma ac mae’r astudiaethau hyn yn mesur gostyngiadau mewn defnyddio sigaretau yn hytrach na mynychder ysmygu. Er hynny, mae dehongliad gofalus ar y canlyniadau yn awgrymu y byddai’r gostyngiad ym mynychder ysmygu yn sgil cyfyngiadau rhannol tua hanner yr hyn a geid drwy bolisi di-fwg. Mae hyn yn gyson ?146;r disgwyl y byddai deddfwriaeth ar ysmygu sy’n parhau i ganiat?r ysmygu yn y sector lletygarwch yn cael effaith lawer llai ar gyfraddau ysmygu.

- Arbedion yng nghost ddynol afiechyd (arbedion afiachedd)

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Byddai gostyngiad yn y costau afiachedd yn codi yn sgil gostyngiad yn lefelau’r ETS. Rydym wedi rhagdybio y byddai’r gostyngiad yn 25% o’r hyn a geid o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr, yn unol ?146;r gostyngiadau yn nifer y marwolaethau yn sgil llai o ddatgelu i ETS.

b) O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:

Byddai gostyngiad yn y costau afiachedd yn codi yn sgil gostyngiad yn lefelau ysmygu gweithredol. Rydym wedi rhagdybio y byddai’r gostyngiad yn 50% o’r hyn a geid o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr, yn unol ?146;r gostyngiadau yn nifer y marwolaethau o ysmygu gweithredol.

### (ii) Arbedion adnoddau

- Gostyngiad yng nghostau triniaethau’r GIG

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Yn unol ?146;r gostyngiad yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i lefelau is o ETS, rhagdybiwyd y byddai’r arbedion adnoddau yn 25% o’r hyn a geid o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr.

b) O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:

Yn unol ?146;r gostyngiad yn nifer y marwolaethau o ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol,

rhagdybiwyd y byddai’r arbedion adnoddau yn 50% o’r hyn a geid o dan ddeddfwriaeth gynhwysfawr.

- Arbedion yn sgil gostyngiadau mewn absenoldeb salwch

a) O ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS:

Rhagdybir y bydden nhw’n 25% o’r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer polisi di-fwg.

b) O ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol:

Rhagdybiwyd y bydden nhw’n 50% o’r hyn a amcangyfrifwyd ar gyfer polisi di-fwg.

- Arbedion costau drwy ostwng perygl t?a gostwng costau glanhau ac addurno

Byddai costau’n cael eu harbed yn sgil lleihau perygl t?a lleihau costau glanhau ac addurno o dan gyfyngiadau rhannol. Er y gallai’r diwydiant lletygarwch ysgwyddo cyfran anghymesur o’r costau yma, fe fydd cyfyngiadau y tu allan i’r sector lletygarwch yn cynhyrchu rhai o’r buddion sy’n debyg o gael eu gwireddu o dan opsiwn 3. Oherwydd hynny, rydym wedi rhagdybio y bydd y rhain yr un fath ag ar gyfer opsiwn 3 er eu bod yn debyg o fod yn llai mewn gwirionedd.

Cost mwy o egwyliau ysmygu mewn sefydliadau sydd heb bolisi ar hyn o bryd Does dim tystiolaeth i wahaniaethu rhwng effaith egwyliau ysmygu ar gynhyrchedd yn yr opsiwn hwn ac opsiwn 3 ac rydym wedi rhagdybio y byddai’r effaith yr un fath yn y ddau achos.

c) Yr effeithiau ar y sector lletygarwch

Byddai deddfu ar ysmygu gan adael y sector lletygarwch trwyddedig yn esempt yn golygu bod y polisi ar ysmygu yn y sector hwn yn cael ei adael yn bennaf i ddisgresiwn lleol. Os bydd penderfyniad ar gyfyngu ysmygu yn parhau i gael ei adael i ddisgresiwn lleol, mae’n bosibl y bydd rhywfaint o newid mewn refeniw rhwng bariau, tai bwyta a gwestai, ond gellid disgwyl na fydd yna ddim effaith ar y sector drwyddi draw. Gan hynny, gellid disgwyl mai ychydig iawn o effaith a g?#146;r opsiwn hwn ar y sector lletygarwch.

4.9 Opsiwn 3 – Deddfwriaeth ddi-fwg gynhwysfawr

Ar sail yr amcangyfrifon sydd ar gael, daroganodd y model Cymreig y byddai gwaharddiad llwyr yng Nghymru yn arwain at osgoi 253 o farwolaethau y flwyddyn drwy leihau mynychder canser yr ysgyfaint a chlefyd coronaidd y galon (CHD) sy’n gysylltiedig ?atgelu i ETS. Ar sail 6000 o farwolaethau o glefydau sy’n gysylltiedig ag ysmygu yng Nghymru bob blwyddyn, amcangyfrifwyd y byddai gostyngiadau mewn ysmygu gweithredol yn arwain at osgoi 120 yn fwy o farwolaethau y flwyddyn drwy leihau mynychder canser yr ysgyfaint a CHD. Y ffigurau hyn yw’r amcangyfrif canol gorau o’r bywydau a g?eu hachub ar ?0 mlynedd, a byddai nifer y bywydau a g?eu hachub yn

cynyddu ar linell syth o sero i 253/120 dros y cyfnod. Ar ben hynny, mae'r ffigurau hyn yn amcangyfrif ceidwadol, gan mai dim ond gostyngiad yn y marwolaethau yn sgil canser yr ysgyfaint a CHD a gynhwyswyd, ac nid gostyngiad yn nifer y marwolaethau o amrywiaeth o fathau eraill o glefydau.

Trosodd astudiaeth HERU fywydau a g?eu hachub yn effaith economaidd wedi'i seilio ar astudiaethau o werth bywyd a gynhyrchwyd gan yr Adran Drafnidiaeth. Yr amcangyfrif diweddaraf o werth bywyd sydd wedi'i ddarparu gan yr Adran Drafnidiaeth yw £1,249,150 (prisiau 2002). Addasodd HERU y ffigur yma er mwyn cyfrif am y ffaith bod marwolaethau yn sgil salwch sy'n gysylltiedig ag ysmygu fel rheol yn digwydd yn nes ymlaen na marwolaethau mewn damweiniau traffig ar y ffyrdd. Mae hyn yn rhoi gwerth am bob bywyd a g?ei achub rhwng £240k a ?447k yn ? math o glefyd.

Cafodd yr effeithiau ar yr economi a g?cyfyngiadau ysmygu mewn mannau cyhoeddus eu hystyried. Roedd y llenyddiaeth a ystyriwyd gan astudiaeth HERU yn awgrym y byddai yna enillion cynhyrchedd yn gyffredinol drwy gael llai o egwyliau ysmygu, er y byddai'r cwestiwn a fyddai busnesau unigol yn ennill ynteu'n colli yn sgil cyflwyno gwaharddiad llwyr yn dibynnu ar y polisi ar ysmygu ar y fangre bryd hynny. Er hynny, roedd y model Cymreig wedi'i seilio ar ragdybiaethau gwahanol, gan ragdybio na fyddai dim effaith ar sefydliadau a oedd naill ai yn ddi-fwg yn barod, neu a oedd ag ystafelloedd pwrpasol at ysmygu yn barod. Disgwylid gweld rhagor o egwyliau ysmygu mewn sefydliadau lle nad oedd polisi ar y pryd. Gan hynny mae model Cymru yn rhagdybio cost yn sgil cyflwyno gwaharddiad o £394,210. Cyfrifwyd amcangyfrif o arbedion costau drwy leihau absenoliaeth yn sgil llai o ysmygu goddefol a gweithredol (34,484,000), llai o berygl t?(£5,957,000) mewn cysylltiad waharddiad ar ysmygu, a gostyngiad mewn costau glanhau ac addurno (£7,563,000).

Rhoddodd astudiaeth HERU ystyriaeth ar wah?i effaith cyfyngiadau ysmygu ar y sector lletygarwch. Cafodd yr effeithiau ar y sector lletygarwch eu hystyried yn nhermau'r effaith ar fasnach a'u rhannu rhwng effeithiau ar fwytai, bariau a gwestai/twristiaeth. Doedd y dystiolaeth o astudiaethau ar yr effaith ar y sector lletygarwch ddim mor gadarn 3146;r dystiolaeth a oedd ar gael ar yr effeithiau ar iechyd. Yn gyffredinol, gwelwyd bod yr astudiaethau wedi methu ?od o hyd i unrhyw ganlyniadau a oedd yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol. Er hynny, lle'r oedd tystiolaeth ar gael, roedd canlyniadau'r astudiaethau yn rhesymol gyson. Cyfrifwyd yr effaith ar y sector lletygarwch gan gyfeirio at yr astudiaethau hyn a chafodd y ffigur yma ei addasu er mwyn ymdrin ?wariant cyfatebol y disgwylid ei weld mewn rhannau eraill o'r economi. Rhoddodd hyn effaith flynyddol net ar y sector lletygarwch, a gafodd ei defnyddio wrth amcangyfrif effaith economaidd gyffredinol gwaharddiad ar ysmygu.

Fel rhan o'r astudiaeth, cafodd model o effaith economaidd gyffredinol gwaharddiad ysmygu yng Nghymru ei greu. Cafodd y model ei seilio ar y dystiolaeth a gafwyd am y gwahanol fathau o effaith a geid yn sgil y gwaharddiad ar ysmygu, fel y nodwyd uchod. Ar gyfer pob math o effaith y gellid sefydlu gwerth ariannol ar ei chyfer, rhoddodd yr astudiaeth amcan o werth y costau a'r buddion ym mhob blwyddyn dros gyfnod cloriannu o 30 mlynedd. Wedyn cafodd gwerth y costau neu'r buddion yn y dyfodol eu disgowntio er mwyn rhoi gwerthoedd presennol net (NPVs).

Cafodd gwerth economaidd ei osod ar effeithiau canlynol y Mesur Ysmygu (NPV(?m) yr

amcangyfrif canol mewn cromfachau):

## Buddion ar gyfer iechyd

Gwerth economaidd y bywydau a g?eu hachub: a) o ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS (86.9) a; b) o ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol (46.8)

Arbedion yng nghost ddynol afiechyd (arbedion afiachedd) o ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS (12.6). (Chafodd arbedion yng nghost ddynol afiechyd, hynny yw arbedion afiachedd, o ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol mo'u prisio)

## Arbedion adnoddau

Gostyngiad yng nghostau triniaethau'r GIG: a) o ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS (2.9) a; b) o ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol (2.2)

Arbedion yn sgil gostyngiadau mewn absenoldeb salwch: a) o ganlyniad i lai o ddatgelu i ETS (4) a; b) o ganlyniad i lefelau is o ysmygu gweithredol (0.47)

Arbedion costau yn sgil llai o berygl t?(6)

Costau glanhau ac addurno is (7.6)

Cost rhagor o egwyliau ysmygu mewn sefydliadau sydd heb bolisi ar hyn o bryd (-0.4)

## Yr Effeithiau ar y Sector Lletygarwch

Yr effaith ar y sector lletygarwch (42)

Cafodd cadernid canlyniadau'r astudiaeth ei brofi'n helaeth gan Brifysgol Morgannwg. Yn ychwanegol at yr amcangyfrif canol, cafodd senarios 'isel' ac 'uchel' eu profi ar sail canlyniad llawer llai manteisiol a chanlyniad llawer mwy manteisiol i waharddiad ar ysmygu.

Cyfanswm yr NPV ar gyfer yr amcangyfrif canol yw +?2,158m. Mae hyn yn awgrymu y gellid disgwyl i gyflwyno'r gwaharddiad ar ysmygu gael effaith gadarnhaol arwyddocaol yng Nghymru dros gyfnod o 30 mlynedd. +?322m a +?3,903m oedd cyfanswm yr NPV ar gyfer y senario 'isel' a'r senario 'uchel'.

Casgliad adroddiad Prifysgol Morgannwg oedd "Nid oes yr un achos lle mae'r NPV yn troi'n negyddol, sy'n awgrymu bod y model yn rhag-weld mai cadarnhaol fyddai effaith gyffredinol gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, hyd yn oed wrth ddefnyddio'r rhagdybiaethau mwyaf anfanteisiol."

## Yr Effaith ar y Sector Lletygarwch a'r Effeithiau yn sgil hynny ar yr Economi

Amcangyfrifodd astudiaeth HERU effaith gwaharddiad llwyr ar y sector lletygarwch gan gyfeirio at astudiaethau ymchwil a gyflawnwyd ar y sectorau bwytai, bariau a gwestai/twristiaeth. Doedd y dystiolaeth o’r astudiaethau yma ddim mor gadarn ?146;r dystiolaeth a oedd ar gael ar yr effeithiau ar iechyd. Yn benodol, dim ond un astudiaeth a welwyd a oedd yn edrych ar effeithiau cyfyngiadau mewn deddfwriaeth ar fariau. Edrychodd yr astudiaeth honno ar effeithiau cyfyngiadau ar fariau yng Nghaliffornia, a awgrymodd y byddai’r sector ar ei ennill yn sgil gwaharddiad llwyr ar ysmygu a hynny drwy ddenu mwy o gwsmeriaid.

Mae’r tabl canlynol yn dangos amcangyfrif o’r effaith ar bob un o’r sectorau bwytai, bariau (wedi’i addasu yn unol £146;r disgrifiad uchod) a gwestai/twristiaeth ac ar y sector lletygarwch yn ei gyfanrwydd yng Nghymru.

Yr effaith bosibl ar drosiant y sector lletygarwch (prisiau 2003)

| | **Amcangyfrif canol**<br><br>**£m** | **Amcangyfrif isel**<br><br>**£m** | **Amcangyfrif uchel**<br><br>**£m** |
|---|---|---|---|
| Gwestai | -6 | -13 | 1 |
| Bwytai | 1 | -6 | 8 |
| Bariau | 46 | -28 | 122 |
| Cyfanswm | 42 | -48 | 131 |
| Cyfanswm Trosiant y Sector | 2,211 | 2,211 | 2,211 |
| % o’r trosiant | 1.9 | -2.2 | 5.9 |

Ffynonellau: Llywodraeth Cynulliad Cymru, SYG (IDBR)

Mae cyfanswm yr effeithiau ar y sector, sef -£48m, £42m a £131m ar gyfer y senarios isel, canol ac uchel, yn cyfateb i newid canrannol yn y trosiant o –2.2%, 1.9% a 5.9% ar sail data IDBR ar gyfer 2003.

## 5. Costau

5.1 Opsiwn 1 – Ymagwedd wirfoddol:

Y Costau i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae costau rhoi’r gorau i ysmygu yn cynnwys y llinell gymorth, yr ymgyrch hybu a Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan. Cyfanswm cost y tair elfen yma yw £1.5 miliwn y flwyddyn a byddai hyn yn cael ei dalu o dan bob un o’r tri opsiwn.

Does dim costau eraill i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn sgil parhau £146;r ymagwedd wirfoddol.

## Y Costau i’r Awdurdodau Lleol

Fyddai dim costau ychwanegol i’r Awdurdodau Lleol yn sgil parhau £146;r ymagwedd wirfoddol.

5.2 Opsiwn 2 – Deddfu ond gydag Esemptiad ar gyfer y Sector Lletygarwch

## Y Costau i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae costau rhoi’r gorau i ysmygu yn cynnwys y llinell gymorth, yr ymgyrch hybu a Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan. Cyfanswm cost y tair elfen yma yw £1.5 miliwn y flwyddyn a byddai hyn yn cael ei dalu o dan bob un o’r tri opsiwn.

Byddai’r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o’r cyfyngiadau rhannol yn cael ei chynnal cyn i’r gwaharddiad ddod i rym, a’r amcangyfrif yw y byddai’n costio £825,000.

Fe fyddai costau ynglyn ag arwyddion. Byddai angen arwyddion ar bob mangre y byddai’r ddeddfwriaeth yn ei throi’n ddi-fwg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno trefnu bod arwyddion ar gael i fusnesau a mangreoedd eraill. O dan yr opsiwn hwn, sy’n esemptio’r sector lletygarwch, amcangyfrifir y byddai hyn yn costio ?40,000.

Bydd cost ynglyn onitro a chloriannu y polisi hefyd. Gallai hyn gostio hyd at gyfanswm o £500,000. Rhagdybiwyd mai sero fyddai costau monitro a chloriannu opsiwn 1, er y gallai rhywfaint o gost gael ei ysgwyddo hyd yn oed os na fydd yna ddeddfwriaeth. Mae’r gost lawn o £500,000 wedi’i chynnwys ym mlwyddyn 1 ar gyfer opsiynau 2 a 3.

## Y Costau i’r Awdurdodau Lleol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno trefnu bod adnoddau ychwanegol ar gael i’r awdurdodau yng Nghymru ar gyfer recriwtio a hyfforddi swyddogion gorfodi ac ar gyfer gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o’r ddeddfwriaeth arfaethedig ymhlith busnesau yng Nghymru. Fyddai opsiwn 2 ddim yn golygu bod angen unrhyw orfodi yn y sector lletygarwch. Amcangyfrifir y byddai’r costau yn 50% o’r costau o dan opsiwn 3 (£400,000 yn 2006-07 ac £1 miliwn y flwyddyn o 2007-08 ymlaen.)

## Y Costau i Drysorlys y DU

Byddai gostyngiad yn lefelau ysmygu gweithredol yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r tollau yng Nghymru. Er hynny, dylid cadw mewn cof bod yna nod cyffredinol o leihau ysmygu, ac felly mae gostyngiadau i'r Trysorlys i'w disgwyl yn sgil y fenter yma.

## Yr Effaith ar Economi Cymru

Yn unol hanllawiau'r Llywodraeth "Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government" rydym wedi rhagdybio y byddai gostyngiad yng ngwariant defnyddwyr ar dybaco yn cael ei gydbwyso gan gynnydd mewn gwariant mewn mannau eraill yn yr economi, gydag effeithiau macroeconomaidd gweddol gyfatebol.

5.3 Opsiwn 3 – Deddfwriaeth ddi-fwg gynhwysfawr

## Y Costau i Lywodraeth Cynulliad Cymru

Mae costau rhoi'r gorau i ysmygu yn cynnwys y llinell gymorth, yr ymgyrch hybu a Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu Cymru Gyfan. Cyfanswm cost y tair elfen yma yw £1.5 miliwn y flwyddyn a byddai hyn yn cael ei dalu o dan bob un o'r tri opsiwn.

Byddai'r ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r gwaharddiad yn cael ei chynnal cyn i'r gwaharddiad ddod i rym, a'r amcangyfrif yw y byddai'n costio £1.5 miliwn.

Fe fyddai costau ynglyn ag arwyddion. Byddai angen arwyddion ar bob mangre y byddai'r ddeddfwriaeth yn ei throi'n ddi-fwg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno trefnu bod arwyddion ar gael i fusnesau a mangreoedd eraill, am gost o £60,000.

Bydd cost ynglyn ?onitro a chloriannu y polisi hefyd. Gallai hyn gostio hyd at gyfanswm o ?500,000. Rhagdybiwyd mai sero fyddai costau monitro a chloriannu opsiwn 1, er y gallai rhywfaint o gost gael ei ysgwyddo hyd yn oed os na fydd yna ddeddfwriaeth. Mae'r gost lawn o ?500,000 wedi'i chynnwys ym mlwyddyn 1 ar gyfer opsiynau 2 a 3.

## Y Costau i'r Awdurdodau Lleol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno trefnu bod adnoddau ychwanegol ar gael i'r awdurdodau yng Nghymru ar gyfer recriwtio a hyfforddi swyddogion gorfodi ac ar gyfer gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth arfaethedig ymhlith busnesau yng Nghymru. (£800,000 yn 2006-07 a £2 miliwn y flwyddyn o 2007-08 ymlaen.)

## Y Costau i Drysorlys y DU

Byddai gostyngiad yn lefelau ysmygu gweithredol yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r tollau yng Nghymru. Er hynny, dylid cadw mewn cof bod yna nod cyffredinol o leihau ysmygu, ac felly mae

gostyngiadau i’r Trysorlys i’w disgwyl yn sgil y fenter yma.

### Yr Effaith ar Economi Cymru

Yn unol hanllawiau’r Llywodraeth "Green Book: Appraisal and Evaluation in Central Government" rydym wedi rhagdybio y byddai gostyngiad yng ngwariant defnyddwyr ar dybaco yn cael ei gydbwyso gan gynnydd mewn gwariant mewn mannau eraill yn yr economi, gydag effeithiau macroeconomaidd gweddol gyfatebol.

### Y Costau i Gyrff Eraill, Unigolion a Busnes

Bydd yn ofynnol i fusnesau unigol godi arwyddion ar eu mangreoedd. Bydd arwyddion ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru (gweler uchod).

Ni ddisgwylir i’r effaith ar fusnesau bach fod yn fwy nag ar fusnes yn ei grynswth.

5.4 Crynodeb o’r costau a’r buddion

Mae tabl sy’n dangos graddfa gymharol y costau a’r buddion ar gyfer pob un o’r tri opsiwn i’w weld yn Atodiad A.

## 6. Asesiad Cystadleuaeth

6.1 Mae defnyddio’r prawf hidlo cystadleuaeth yn awgrymu nad yw’r rheoliadau di-fwg yn debyg o gael effaith andwyol arwyddocaol ar gystadleuaeth. Mae natur gynhwysfawr y cyfyngiadau yn y Ddeddf Iechyd ac yn y rheoliadau ar gyfer Cymru yn golygu y bydd yr amodau yn gyfartal i bawb.

## 7. Ymgynghori

7.1 Ymgynghorodd Pwyllgor y Cynulliad ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus ?146;r cyhoedd ynghylch y risgiau i iechyd yn sgil mwg ail-law ac effaith economaidd cyfyngiadau ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus fel rhan o’i ystyriaethau cyn cyhoeddi ei adroddiad ym mis Mai 2005.

7.2 Ym mis Mehefin 2005, cyhoeddodd Adran Iechyd y DU ddogfen ymgynghori ynghylch y darpariaethau di-fwg yn y Mesur Iechyd. Gwahoddodd y ddogfen ymgynghori ymatebion i’r Adran Iechyd gan ddarparu hefyd ar gyfer anfon ymatebion o Gymru at Lywodraeth Cynulliad Cymru. Cafodd yr ymarfer ymgynghori dros 57,000 o ymatebion yng Nghymru a Lloegr, a mynegodd dros 90 y cant o’r ymatebwyr gefnogaeth i waharddiad llwyr ar ysmygu ym mhob man gyhoeddus a phob gweithle caeedig.

7.3 Cafwyd cyfnod ymgynghori o ddeuddeg wythnos ar y Rheoliadau Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus (Cymru) drafft rhwng 21 Gorffennaf a 13 Hydref 2006, a bu drafft cynharach o’r Arfarniad Rheoliadol yma yn rhan o’r ddogfen ymgynghori. Cafodd sylwadau ar yr Arfarniad Rheoliadol drafft eu derbyn gan sectorau yn y diwydiant gemau. Er eu bod o blaid y cynigion ar

fangreoedd di-fwg, dadleuai’r Gymdeithas Bingo a Grwp Gala Coral y byddai’r ddeddfwriaeth ddi-fwg, ar sail y dystiolaeth ddiweddar o’r Alban, yn cael effaith "anghymesur ac arwyddocaol" ar y sector bingo a hefyd, ym marn Gala Coral, ar y sector casinos. Wnaeth dau gorff arall yn y sector yma a ymatebodd i’r ymarfer ymgynghori hefyd, sef Adran Gemau Grwp Rank a Chymdeithas Casinos Prydain, ddim cyflwyno sylwadau ar y pwynt yma. Awgrymodd Cadwch Gymru’n Daclus y byddai cynnydd dros gyfnod byr yn y maint o ysbwriel sy’n gysylltiedig ag ysmygu y tu allan i adeiladau cyhoeddus, o ganlyniad i’r ddeddfwriaeth.

## 8. Costau Arwyddocaol

8.1 Daeth dadansoddiad Prifysgol Morgannwg ar gyfer y Model Cymreig i’r casgliad "Nid oes yr un achos lle mae’r NPV yn troi’n negyddol, sy’n awgrymu bod y model yn rhag-weld mai cadarnhaol fyddai effaith gyffredinol gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus, hyd yn oed wrth ddefnyddio’r rhagdybiaethau mwyaf anfanteisiol". Nid yw hyn yn golygu nad oes posibilrwydd y gallai mangreoedd unigol yn y sector hamdden a lletygarwch, e.e. rhai mangreoedd trwyddedig a lleoliadau bingo, brofi effaith negyddol yn sgil y gwaharddiad.

## 9. Adolygu

9.1 Mae cynllun monitro a chloriannu wedi’i baratoi i fesur effaith y ddeddfwriaeth ddi-fwg. Bydd hyn yn darparu’r data canlynol:

- Newidiadau ym mynychder ysmygu a defnyddio tybaco (drwy gyfrwng data sy’n cael ei gasglu fel rhan o’r drefn yn Arolwg Iechyd Cymru);
- Mesur effaith y gwaharddiad ysmygu ar ddatgelu plant i fwg tybaco amgylcheddol;
- Mesur effaith y gwaharddiad ar ymddygiad yfed (o ran amlder a lleoliad);
- Monitro barn y cyhoedd ynghylch y gwaharddiad;
- Monitro newidiadau ym mynychder a chyffredinolrwydd clefydau sy’n gysylltiedig ag ysmygu;
- Monitro effaith economaidd y gwaharddiad ar y fasnach drwyddedig.

9.2 Mae gwaith i gasglu’r data sylfaenol yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Caiff yr amserlen ar gyfer casglu’r data dilynol ei chyplysu hyflwyno’r gwaharddiad.

## 10. Crynodeb

10.1 Opsiwn 1 sy’n gwneud y cynnydd lleiaf tuag at amcanion iechyd Llywodraeth y Cynulliad. Heb gefnogaeth statudol, mae’r profiad hyd yn hyn yn awgrymu nad yw’n debyg y bydd dim gostyngiad arwyddocaol pellach o ran datgelu i fwg ail-law yn y gweithle.

10.2 Opsiwn 2: Fe fyddai cyfyngiadau rhannol yn sicrhau rhywfaint o fuddion ar gyfer iechyd, ond fydden nhw ddim yn mynd i’r afael ?146;r datgelu trwm i fwg ail-law sy’n cael ei brofi ar hyn o bryd gan weithwyr yn y sector lletygarwch.

10.3 Opsiwn 3: Byddai gwaharddiad cynhwysfawr ar ysmygu ym mhob man gyhoeddus a phob gweithle caeedig yn sicrhau buddion arwyddocaol ar gyfer iechyd, ac mae hefyd yn debyg o arwain at leihau ysmygu gweithredol. Disgwylir mai cadarnhaol fydd yr effaith ar yr economi yn gyffredinol.

## Atodiad A: Crynodeb o Gostau a Buddion Opsiynau 1, 2 a 3

| NPV ym mhrisiau 2006 (£m) ar sail arfarniad 30 mlynedd. | | | |
|---|---|---|---|
| | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 |
| (i) Buddion ar gyfer iechyd | | | |
| Llai o ddatgelu i ETS | 97.45 | 243.68 | 974.50 |
| Llai o ysmygu gweithredol | 0 | 262.41 | 524.81 |
| Llai o ddatgelu i ETS | 14.13 | 35.32 | 141.30 |
| Llai o ysmygu gweithredol | - | - | - |
| (ii) Arbedion adnoddau | | | |
| Llai o ddatgelu i ETS | 3.25 | 8.19 | 32.52 |
| Llai o ysmygu gweithredol | 0 | 12.34 | 24.67 |
| Llai o ddatgelu i ETS | 6.87 | 11.21 | 44.86 |
| Llai o ysmygu gweithredol | 0 | 2.69 | 5.27 |
| Cost mwy o egwyliau ysmygu | 0 | -7.61 | -7.61 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arbedion costau yn sgil llai o berygl t?/td> | 11.42 | 114.21 | 114.21 |
| Llai o gostau glanhau ac addurno | 14.47 | 144.67 | 144.67 |
| (iii) Yr Effeithiau ar y Sector Lletygarwch (Gweler nodyn 2) | 0 | 0 | 159.9 |
| (iv) Costau Gweithredu a Gorfodi | | | |
| Rhoi'r gorau i ysmygu | -28.55 | -28.55 | -28.55 |
| Ymwybyddiaeth gyhoeddus | 0 | -1.5 | -1.1 |
| Arwyddion | 0 | -0.04 | -0.06 |
| Monitro a chloriannu | 0 | -0.5 | -0.5 |
| Y Costau i'r Awdurdodau Lleol | 0 | -18.44 | -36.87 |
| Cyfanswm yr NPV | 119.04 | 778.08 | 2091.62 |

Nodyn 1: Mae pob un o ffigurau'r gwerth presennol net (NPV) wedi'i gyfrifo drwy ragfynegi effaith economaidd pob opsiwn dros gyfnod o 30 mlynedd.

Nodyn 2: Bydd effaith net unrhyw effaith ar y sector lletygarwch ar economi Cymru yn lleihau wrth i unrhyw newid mewn gwario gael ei ailddosbarthu yn ?c ymlaen o sectorau eraill yn yr economi. At ddibenion y tabl cryno, mae effaith economaidd net o 20% wedi'i rhagdybio, gan ddilyn y model.

Atodiad B: Cyfeiriadau

Jarvis M J, Wardle J (1999). Social patterning of individual health behaviours: the case of cigarette smoking. Yn: Marmot M a Wilkinson R (golygyddion). Social determinants of health. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen

Report of the Scientific Committee on Tobacco and Health (1998). Llundain: Yr Adran Iechyd

Y Pwyllgor Gwyddonol ar Dybaco ac Iechyd (SCOTH) (2004). Secondhand smoke: review of evidence since 1998. Llundain: Yr Adran Iechyd

Ludbrook A, van Teijlingen E, Bird S (2005). International review of the health and economic impact of the regulation of smoking in public places. Uned Ymchwil Economeg Iechyd, Prifysgol Aberdeen

Cohen D, Lisles C (2005). Modeling the impact of a ban on smoking in public places in Wales. Uned Ymchwil Economeg Iechyd, Ysgol y Gwyddorau Gofal, Prifysgol Morgannwg

Chaloupka F J, Saffer H (1992). Clean indoor air laws and the demand for cigarettes. Contemporary Policy Issues, cyf. 10, rhif 2, tt. 72-83

## Ymgynghoriad ar y Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) 2007,

## Gorffennaf-Hydref 2006: Adroddiad Ymgynghori

### Cyflwyniad

1. Ar 21 Gorffennaf 2006 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru bapur ymgynghori ar Reoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Tachwedd 2006 a daeth 188 o gyflwyniadau i law.

2. Gwahoddodd yr ymgynghoriad hwn sylwadau ar gynnwys y Rheoliadau arfaethedig a fydd yn cael eu gwneud o dan rymoedd a gafodd eu cyflwyno yn Neddf Iechyd 2006, sy’n darparu ar gyfer gwahardd ysmygu mewn rhai mangreoedd, lleoedd a cherbydau. Cafodd y Ddeddf Iechyd Gydsyniad Brenhinol ar 19 Gorffennaf 2006.

3. Mae’r Rheoliadau Mangreoedd etc Di-fwg (Cymru) drafft yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ?146;r pwerau canlynol sy’n cael eu rhoi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

- nodi'r hyn y mae "caeedig neu sylweddol gaeedig" yn ei olygu.
- eithrio disgrifiadau penodol o fangreoedd neu ardaloedd penodol ohonyn nhw.
- gwneud rheoliadau i gerbydau fod yn ddi-fwg ac ar gyfer eithriadau.
- nodi ffurf, cynnwys ac arddangosiad arwyddion dim ysmygu.
- enwi awdurdodau gorfodi, a darparu ar gyfer trosglwyddo achosion rhwng awdurdodau gorfodi ac awdurdodi swyddogion gorfodi.
- nodi ffurf hysbysiadau cosb.

4. Cafodd dros 680 o gop? o’r papur ymgynghori eu dosbarthu i sefydliadau yng Nghymru ac i sefydliadau yn Lloegr y mae eu cylch gwaith yn cynnwys Cymru. Roedd mwy o gop? ar gael ar gais, a chafodd y papur ei gyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar y wefan un pwrpas

www.gwaharddsmygucymru.co.uk

5. Mae’r ddogfen hon yn amlinellu’r prif bwyntiau sy’n codi o’r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

**Crynodeb o’r ymatebion**

6. Daeth 129 o gyflwyniadau gan sefydliadau a 59 o gyflwyniadau gan unigolion i law mewn ymateb i’r ymgynghoriad, trwy’r post, yr e-bost neu trwy’r wefan un pwrpas. Mae Atodiad A yn rhestru’r holl sefydliadau sydd wedi ymateb i’r ymgynghoriad. Mae ymatebion gan unigolion wedi cael yr un ystyriaeth ?146;r rhai gan sefydliadau, ond ni chaiff enwau ymatebwyr unigol eu rhoi yn y ddogfen hon.

## Golwg cyffredinol

7. Cyrhaeddodd y mwyafrif o’r 59 o ymatebion a ddaeth i law gan unigolion dros yr e-bost. Nid oedd y rhan fwyaf o’r rhain yn ymwneud ?hwmpas y rheoliadau drafft na’r cwestiynau penodol a gafodd eu codi gan yr ymgynghoriad. Yn syml, mynegodd rhyw draean o ymatebion unigol gefnogaeth gref am y ddeddfwriaeth ddi-fwg. Mynegodd rhyw ddwy ran o dair, gan gynnwys chwe unigolyn nad oedden nhw’n byw yng Nghymru, wrthwynebiad i’r egwyddor o leoedd cyhoeddus di-fwg a/neu i gymhwyso’r gwaharddiad i fangreoedd wedi’u trwyddedu. Mae’r mater hwn yn sefyll y tu hwnt i gwmpas rheoliadau Cymru. Mae Cymal 3 (3) Deddf Iechyd 2006 yn nodi bod tai tafarn a chlybiau wedi’u trwyddedu yn rhan annatod o’r gyfundrefn ddi-fwg sy’n cael ei chynnig i Gymru a Lloegr ac nid oes modd eu heithrio (ar wah?i’r posibilrwydd o eithriadau ar gyfer elfennau preswyl mewn mangreoedd o’r fath).

8. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebion gan sefydliadau’r GIG, llywodraeth leol a’r sector gwirfoddol yn gefnogol iawn o blaid deddfwriaeth ddi-fwg ac yn gyffredinol hapus £146;r rheoliadau.

9. Mynegodd ymatebion gan sefydliadau sy’n cynrychioli’r fasnach wedi’i thrwyddedu a rhai sefydliadau hapchwarae bryderon am effaith bosibl y ddeddfwriaeth ar eu busnesau. Cafodd pryderon eu mynegi hefyd bod 2 Ebrill 2007 wedi’i gyhoeddi fel y dyddiad y mae’r ddeddfwriaeth yn dod i rym yng Nghymru.

## Materion penodol

10. Gofynnodd y ddogfen ymgynghori gwestiynau penodol ar nifer o faterion yn y rheoliadau. Mae’r sylwadau a gafodd eu gwneud ar y rhain ac ar agweddau eraill ar y rheoliadau drafft wedi’u nodi isod, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r pwyntiau a gafodd eu gwneud.

Safbwyntiau ar ddiffiniadau mangreoedd "caeedig" a sylweddol gaeedig"

11. Mynegodd nifer o ymatebwyr y farn y dylai diffiniadau gael eu gwneud yn symlach. Mae’r diffiniad mangre "caeedig" a "sylweddol gaeedig" fel a gynigiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn unol £146;r hyn a gafodd ei nodi yn rheoliadau di-fwg yr Alban ac a gafodd ei gynnig yn y rheoliadau drafft ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon. Dyma faes lle mae cysondeb rhwng gwledydd

y DU yn bwysig. Nid oes cynnig i ddiwygio’r diffiniad hwn.

12. Cafodd yr angen am gymhwysiad cyson ar draws Cymru o’r diffiniad "sylweddol gaeedig" ei godi gan ymatebwyr o’r byd busnes, yn enwedig yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio awdurdodau lleol ar gyfer cysgodfeydd ysmygu. Caiff pwysigrwydd cysondeb yn hyn o beth ei gydnabod gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn ogystal ?hymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae mecanweithiau i gynorthwyo ?yn yn cael eu trafod rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

13. Galwodd nifer o sefydliadau’r GIG, gweithwyr iechyd proffesiynol a’r sector gwirfoddol am ymestyn y ddeddfwriaeth i gynnwys lleoliadau nad ydyn nhw’n cael eu cynnwys yn niffiniadau’r rheoliadau o bosibl. Roedd y rhain yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon, pob gorsaf drenau a bysus a phob lloches fysus. Dadleuodd rhai sefydliadau’r GIG a gweithwyr iechyd proffesiynol hefyd i’r estyniad gynnwys tir ysbytai, ond ni wnaeth ymatebwyr eraill o’r GIG gefnogi hyn. Rhoddodd Deddf Iechyd 2006 rymoedd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru enwi lleoedd di-fwg ychwanegol nad ydyn nhw’n cael eu cynnwys gan y diffiniadau yn y Mesur, mewn achosion lle, o beidio £146;u henwi, mae’r personau sy’n bresennol yn debygol o gael eu hamlygu i fwg. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi nodi ei fod yn bwriadu gohirio ystyried y defnydd o’r pwer hwn hyd nes i’r gyfundrefn ddi-fwg gychwynnol mewn lleoedd cyhoeddus caeedig fod mewn grym ac wedi sadio.

## Safbwyntiau ar gynigion ar gyfer llety preifat

14. Yr ymagwedd sydd wedi’i nodi yn y rheoliadau drafft yw, ar wah?i rannau o anheddiad preifat sy’n cael eu defnyddio’n unig fel lle gwaith, gall y person sy’n byw mewn mangre breifat benderfynu dros eu hunain p’un a yw pobl yn cael ysmygu yn y fangre ai peidio. Cafodd hyn ei dderbyn yn gyffredinol gan yr ymatebwyr. Fodd bynnag, mynegodd ystod eang o sefydliadau’r llywodraeth leol, y sector iechyd a gwirfoddol amheuaeth a phryderon am weithwyr cartref fel gweithwyr gofal iechyd, gofalwyr a glanhawyr sy’n cael eu hamlygu i fwg ail-law wrth ymweld ?hartrefi cleientiaid sy’n ysmygwyr. Y teimlad oedd ei bod hi’n bwysig y dylai fod gan gyflogwyr gweithwyr felly, sydd yletswydd o ofal tuag at eu staff, bolis? clir i ymdrin ?146;r mater hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cydnabod y pryderon hyn. Cyn i’r ddeddfwriaeth ddod i rym, bydd arweiniad penodol yn cael ei ddosbarthu i’r GIG, awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth gofal lle byddan nhw’n mynd i’r afael ?146;r angen i sefydliadau sy’n cyflogi cael polis? ar waith ar y mater hwn.

15. Nododd y ddogfen ymgynghori y byddai llety hunangynhwysol at ddefnydd dros dro neu wyliau yn cael ei drin fel llety preifat ac ni fyddai’n ofynnol iddyn nhw fod yn ddi-fwg. Ceisiodd y British Holiday and Home Parks Association a Chynghrair Twristiaeth Cymru sicrwydd y byddai carafannau, chalets a llety gwyliau sy’n cael eu rhentu yn cael eu cynnwys yn y dehongliad hwn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n fodlon bod carafannau a thai haf sy’n cael eu perchen yn breifat yn cael eu darparu’n ddigonol ar eu cyfer yn y rheoliadau sydd wedi’u cynnig. Daw’r arweiniad a fydd yn cael ei ddosbarthu cyn i’r ddeddfwriaeth ddod i rym yn egluro y bydd yr ymagwedd hon yn cael ei chymhwyso i bob math o lety hunangynhwysol at ddefnydd dros dro neu wyliau, gan gynnwys bythynnod, chalets, llety, carafannau, etc. Bydd penderfyniadau ynghylch statws di-fwg llety o’r fath yn aros gyda’r perchennog. Bydd yr arweiniad yn argymell hefyd y gallai perchnogion llety dros dro o’r fath ddymuno nodi’n glir yn eu hysbysebion a yw eu llety i gyd neu unrhyw lety yn ddi-fwg.

16. Cynigiodd y ddogfen ymgynghori y byddai’n ofynnol i ardaloedd cymunedol mewn aneddiadau preifat sy’n cael eu defnyddio fel mannau gwaith (e.e. lifftiau a choridorau cymunedol; ceginau sy’n cael eu rhannu neu olchdai mewn llety ar ffurf neuadd breswyl) fod yn ddi-fwg. Ymholodd rhai ymatebwyr a ddylai hyn fod yn berthnasol i gartrefi gwarchodol gan awgrymu y byddai yna anawsterau gorfodi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n credu ei bod hi’n iawn sicrhau bod ardaloedd cymunedol o’r fath yn ddi-fwg, er mwyn amddiffyn iechyd pob person sy’n defnyddio’r rhannau cyffredin hyn.

### Safbwyntiau ar fathau o lety preswyl a ddylai gael eu heithrio o dan y ddeddfwriaeth ddi-fwg

17. Awgrymodd ymatebwyr y GIG a’r llywodraeth leol y dylai ffigur gael ei osod ar gyfran yr ystafelloedd gwely mewn unrhyw westy a allai gael eu dynodi’n rhai nad ydyn nhw’n ddi-fwg. Teimlai Licensed Victuallers Wales y dylai gweithredwyr fod yn gallu dynodi cymaint neu cyn lleied o ystafelloedd gwely ar gyfer ysmygu ag yr oedden nhw’n dymuno, ac i newid y dynodiad yn unol £146;r galw gan gwsmeriaid. Soniodd ymatebwyr y llywodraeth leol y gallai anawsterau godi pe byddai perchnogion yn gallu newid yn aml neu ar fyr rybudd ddynodiad ystafelloedd gwely’r gwesty nad ydyn nhw’n ddi-fwg.

18. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cynnig gosod cyfyngiad ar nifer yr ystafelloedd gwely mewn gwestai y mae modd eu dynodi ar gyfer ysmygu. Barn ar gyfer y person yng ngofal y fangre yw hon, y bydd yn ofynnol iddyn nhw nodi, yn ? rheoliadau, ddynodiad yr ystafelloedd gwely yn ysgrifenedig. Nid yw ail-ddynodi aml wedi ymddangos yn broblem yn yr Alban; pe byddai’n broblem yng Nghymru, mae grymoedd ar gael i ddiwygio’r rheoliadau fel sy’n briodol.

19. Soniodd nifer o sefydliadau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wrth ystyried dynodiad yr ystafelloedd gwely mewn cartrefi gofal fel rhai nad ydyn nhw’n ddi-fwg, y dylai ystyriaeth gael ei rhoi i’r perygl t?y mae cleifion oedrannus dryslyd yn eu cyflwyno, sy’n ei gwneud hi’n well cael ystafell ysmygu un pwrpas. Mae’r dewis hwn ar gael yn y rheoliadau sydd wedi’u cynnig.

20. Mewn perthynas ag eithrio ar gyfer unedau iechyd meddwl preswyl, nododd Cydweithredu Cymru dros Iechyd Meddwl fod angen mynd i’r afael ag ysmygu gan bobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Galwodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru felly ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflawni amgylcheddau di-fwg ar gyfer staff a thrigolion mewn unedau iechyd meddwl preswyl cyn gynted ? phosibl. Bydd materion yn ymwneud ag unedau iechyd meddwl yn cael eu hymdrin ?hw yn yr arweiniad a fydd yn cael ei ddosbarthu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

### Safbwyntiau ar ddarpariaeth i eithrio ar gyfer perfformwyr

21. Roedd llawer o sefydliadau’r celfyddydau a’r cyfryngau (ond nid pob un ohonyn nhw), gyda chymorth rhai sefydliadau busnes, o blaid eithriad i berfformwyr. Dadleuodd y Theatrical Management Association (TMA) y byddai gwaharddiad ar berfformwyr yn ysmygu ar y llwyfan yn effeithio’n ddiangen ac yn anghyfiawn ar ryddid cynhyrchwyr, cyfarwyddwyr a pherfformwyr i

berfformio’n llawn a dehongli’n gywir fwriadau artistig yr awduron. Roedd y TMA hefyd am gael eithriad ar gyfer ymarferion yn ogystal ? pherfformiadau gwirioneddol, ar y sail y byddai angen i’r rhai nad ydyn nhw’n ysmygu neu ysmygwyr amhrofiadol ymarfer ymddygiad ysmygu. Awgrymodd y TMA ac Asiantaeth Ffilm Cymru y byddai ymestyn y gwaharddiad i berfformwyr yn creu anawsterau ar gyfer cynyrchiadau teithio ac y byddai’n atal cwmn? ffilm a theledu rhag dod i weithio yng Nghymru.

22. Roedd ymatebion gan sectorau eraill, yn enwedig y gwasanaeth iechyd, yn gwrthwynebu’r eithriad ar y sail y byddai’n amlygu cynulleidfaoedd a chyd actorion i beryglon iechyd mwg ail-law. Cafodd pryderon cryf eu mynegi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol am anawsterau gorfodi sy’n codi o’r eithriad. Dywedodd Cyfarwyddwr Cymru Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd: "Rydym yn gwrthwynebu unrhyw drefniant lle mae’n rhaid pennu a yw hygrededd artistig drama neu ddarn o theatr yn gofyn am ysmygu tybaco. Fel swyddogion gorfodi, nid yw Ymarferwyr Iechyd yr Amgylchedd a swyddogion gorfodi awdurdodau lleol eraill yn gymwys i wneud penderfyniad felly, ac nid ydym yn gwybod am unrhyw barti arall a fyddai’n gymwys i wneud."

23. Ar styried yr ymatebion i’r ymgynghoriad, nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu diwygio’r rheoliadau i ddarparu eithriad i berfformwyr. Mae’r rhesymeg iechyd ar gyfer y ddarpariaeth ddi-fwg yn berthnasol ym mhob lleoliad caeedig. Y teimlad yw y byddai darparu eithriad i berfformwyr yn tanseilio’r neges iechyd hon ac y byddai’n ymddangos yn annheg i’r cyhoedd.

### Safbwyntiau ar gynigion ar gyfer eithrio cyfleusterau ymchwilio ac arbrofi

24. Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr o blaid eithriad ar gyfer cyfleusterau ymchwilio ac arbrofi, ond mynegodd rhai bryderon y dylai gweithwyr mewn cyfleusterau felly gael eu hamddiffyn yn ddigonol. Gofynnodd gweithgynhyrchwyr cynhyrchion tybaco am eglurhad ynghylch a fyddai’r eithriad hwn yn ymestyn i alluogi gwerthwyr tybaco arbenigol i brofi ac arbrofi eu cynhyrchion yn eu mangreoedd mewn ystafelloedd un pwrpas clir. Barn a bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw dydy’r eithriad hwn ddim yn cynnwys gwerthwyr tybaco arbenigol.

### Safbwyntiau ar gynigion i wneud rhai cerbydau’n ddi-fwg

25. Ceisiodd ymatebwyr o amrywiaeth o sectorau eglurhad ar a fyddai’n ofynnol i gerbydau preifat a oedd yn cael eu defnyddio’n achlysurol at ddibenion gwaith fod yn ddi-fwg drwy’r amser ac arddangos arwyddion dim ysmygu. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw na ddylai fod yn ofynnol i le cerbydau preifat, fel preswylfannau preifat, fod yn ddi-fwg. Mewn ymateb i’r pryderon a gafodd eu codi, y bwriad yw diwygio geiriad y rheoliadau i egluro na fydd yn ofynnol i gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio’n bennaf at ddibenion preifat gan berson sy’n berchen arno neu sydd ?146;r hawl i’w ddefnyddio mewn ffordd ddigyfyngiad fod yn ddi-fwg. Mae hyn yn debyg i’r ymagwedd yn rheoliadau’r Alban.

26. Cafodd eglurhad ei geisio hefyd ar y sefyllfa mewn perthynas ?hacsis. Nododd y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y byddai cerbydau’n ddi-fwg

pe byddai'n nhw’n cael eu defnyddio i gludo aelodau o’r cyhoedd. Bydd yr arweiniad sy’n cael ei ddosbarthu pan fydd y rheoliadau wedi’u gwneud yn egluro bod hwn yn berthnasol i yrwyr yn ogystal ?heithwyr.

## Safbwyntiau ar gynigion ar gyfer arwyddion dim ysmygu mewn mangreoedd a cherbydau di-fwg

27. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr yn hapus fwy neu lai £146;r cynigion ar gyfer arwyddion. Mynegodd Grwp y Post Brenhinol bryderon bod angen arwyddion ym mhob mynedfa, nid yn unig y mynedfeydd sy’n cael eu defnyddio gan y cyhoedd. Teimlai rhai cwmn? Seisnig y dylai’r gofynion o ran arwyddion fod yr un fath yng Nghymru a Lloegr.

29. Ceisiodd yr ymgynghoriad safbwyntiau ar a ddylai maint isaf gael ei nodi ar gyfer geiriad arwyddion di-fwg mewn mangreoedd. Roedd sylwadau a ddaeth gan CLlLC a Chyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru yn awgrymu efallai ei fod yn briodol nodi maint ar gyfer y testun ar arwyddion di-fwg mewn mangreoedd er mwyn osgoi’r defnydd bwriadol o destun bach iawn, a chafodd y farn hon ei chefnogi gan ymatebwyr eraill o’r llywodraeth leol a’r sector iechyd. Fodd bynnag, ni chafodd cynigion penodol eu rhoi gerbron. Dadleuodd ymatebwyr o’r byd busnes na ddylai maint y testun gael ei nodi, ac mewn rhai achosion, nad oedd y defnydd o’r symbol dim ysmygu yn ddigon ar ei ben ei hun. Galwodd rhai ymatebwyr am gynnwys gwybodaeth arall ar arwyddion, gan gynnwys enwau a rhifau i adrodd ar dorri deddfwriaeth.

30. Daeth rhai sylwadau i law ar arwyddion cerbydau. Mynegodd rhai ymatebwyr eu bod yn fodlon y byddai arwyddion dim ysmygu mewn cerbydau yn y rhan fwyaf o achosion yn gweddu i ofynion y rheoliadau. Teimlai pobl eraill, gan gynnwys grwp Y Post Brenhinol, fod gofyniad i ddangos arwyddion mewn cerbydau yn rhy drwm.

31. Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y dylai’r darpariaethau ar gyfer arwyddion fod yn gymesur a pheidio ?hyflwyno unrhyw feichiau diangen ar fusnesau. Mae’r rheoliadau drafft yn nodi maint isaf ar gyfer yr hysbysiad mewn mangreoedd ac ar gyfer maint y symbol dim ysmygu sy’n cael ei ddangos ar yr arwyddion. Byddai union fanylion maint isaf ar gyfer geiriad yn codi materion am ddyluniad arwydd a allai fod yn rhy gyfarwyddol. Ystyriaeth arall yw y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod arwyddion gyda geiriad o faint digonol ar gael ac y bydd yn eu dosbarthu am ddim. Y cynnig felly yw y dylai’r ddarpariaeth ar gyfer arwyddion barhau’n sefydlog.

32. Gofynnodd nifer o sefydliadau, yn bennaf y rhai sy’n cynrychioli’r sector lletygarwch am "gymal y machlud" ar ofynion arwyddion lle na fyddai eu hangen ar ?mser penodol. Mae Deddf Iechyd 2006 yn gofyn bod arwyddion dim ysmygu yn cael eu harddangos ym mhob mangre di-fwg. Mae’r Adran Iechyd yn ymroi i gynnal adolygiad llawn o ddeddfwriaeth ddi-fwg dair blynedd ar ?i gweithredu, ac mae’n debygol y bydd arwyddion yn cael eu cynnwys yn yr adolygiad hwnnw.

## Arwyddion dwyieithog mewn mangreoedd

33. Soniodd nifer o awdurdodau lleol a phartneriaethau strategol yng Ngogledd Cymru ar y defnydd o’r gair "mangre" fel y term Cymraeg cyfatebol i "premises" yn yr arwyddion dwyieithog penodol ar

gyfer mangreoedd. Dadleuon nhw fod hwn yn derm hen ffasiwn nad oedd yn cael ei ddefnyddio’n gyffredin mwyach ac na fyddai pobl yn gwybod ei ystyr. Roedd y dewisiadau eraill a gafodd eu hawgrymu ar gyfer yr ymadrodd "yn y fangre hon" yn cynnwys "yn yr adeilad hwn" ac "yn y lle hwn".

34. Cafodd y defnydd o’r gair "mangre" i gyfieithu "premises" ar arwyddion ei ystyried yn ofalus gan Wasanaeth Cyfieithu, Uned Iaith Gymraeg ac Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’r term Cymraeg am premises wedi bod yn ffocws ymchwil a thrafod helaeth ymhlith cyfieithwyr deddfwriaeth ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae "mangre" bellach wedi dod yn derm sy’n cael ei ddefnyddio’n gyffredinol yn y cyd-destun hwn yn neddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O gofio diffiniad eang "premises" yn Neddf Iechyd 2006 (e.e. nid yn unig adeiladau ond marquees hefyd), cyngor Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad oedd mai dim ond "mangre" oedd yn gallu cwmpasu amrywiaeth y lleoliadau yr oedd angen eu cynnwys. Maen nhw’n ystyried bod "adeilad" yn rhy benodol a "lle" yn rhy amwys.

35. Er ei bod hi’n amlwg yn ddymunol i arwyddion cyhoeddus ddefnyddio iaith glir lle bynnag bo hynny’n bosibl, a chafodd y pwynt hwn ei ystyried yn ofalus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae’n bwysig hefyd yn yr achos hwn i gofio mai pwrpas yr arwydd di-fwg yw rhybuddio pobl y gallai trosedd gael ei chyflawni. Mae angen osgoi geiriad sy’n cyfleu cysyniad rhy gul neu rhy amwys o leoliad, fel nad oes unrhyw le i ddadlau. Felly, maen nhw’n ystyried ei bod hi’n bwysig y dylai arwyddion di-fwg adlewyrchu’r derminoleg sy’n cael ei ddefnyddio yn y rheoliadau.

## Dyletswyddau i atal ysmygu mewn cerbydau di-fwg

36. Mynegodd y Conffederasiwn Cludiant Teithwyr, First Great Western Trains, Trenau Arriva a Chyngres Undebau Llafur Cymru bryderon am r?yrwyr wrth atal ysmygu ar gludiant cyhoeddus. Tynnodd y sylwadau hyn sylw at drafferthion posibl y gallai gyrwyr cerbydau sy’n symud eu hwynebu a gwnaethon nhw geisio eglurhad ar yr amddiffyniadau a gafodd eu nodi yng Nghymal 8 (5) y Ddeddf Iechyd. Cafodd cwestiynau eu gofyn hefyd ynghylch pa gamau y gallai casglwyr tocynnau neu staff eraill eu cymryd petai teithiwr yn gwrthod rhoi’r gorau i ysmygu. Mae paragraff 42 isod yn nodi’r gwaith sy’n cael ei wneud i baratoi protocol gorfodaeth ar gyfer Cymru. Bydd hwn yn mynd i’r afael yn benodol ?hymhwyso’r ddeddfwriaeth mewn sefyllfaoedd cludiant cyhoeddus, gan gynnwys yr amddiffyniadau y mae Cymal 8 (5) y Ddeddf Iechyd yn eu nodi, a bydd yn ystyried materion diogelwch staff y rheng flaen a phrif gyfrifoldeb y gyrrwr am ddiogelwch teithwyr fel a gafodd ei godi yn yr ymgynghoriad gan gyrff cludiant. Bydd camau sy’n cael eu hargymell ar gyfer staff yn achos teithwyr sy’n gwrthod rhoi’r gorau i ysmygu yn unol ?weithdrefnau cwmn? cludiant sy’n bodoli ar gyfer delio ag ymddygiad afreolus neu wrthgymdeithasol.

## Safbwyntiau ar orfodi

37. Roedd yna gefnogaeth fras am yr ymagwedd a gafodd ei chynnig i orfodi sydd wedi’i nodi yn y ddogfen ymgynghori. Croesawodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru a Grwp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru y cyfle i sicrhau gorfodaeth effeithiol y ddeddfwriaeth a nododd gymorth ariannol cynnar gan Lywodraeth Cynulliad

Cymru i alluogi llywodraeth leol i baratoi ar gyfer y cyfrifoldeb newydd hwn. Gwnaethom hefyd groesawu'r hyblygrwydd i bennu dulliau lleol i awdurdodi swyddogion gorfodi, y bydd angen eu teilwra i amgylchiadau lleol penodol, ac i drosglwyddo swyddogaethau gorfodi, a fydd yn galluogi cydweithredu rhwng awdurdodau ac yn helpu sicrhau ymagwedd gyson i fusnesau sy'n gweithredu ar draws sawl ardal awdurdod lleol.

38. Roedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru yn cefnogi'r cynigion, a gwnaethon nhw nodi, er na fyddai'r heddlu yn achub y blaen wrth orfodi'r rheoliadau hyn, y bydden nhw wrth reswm yn fodlon cynorthwyo unrhyw aelodau o awdurdodau gorfodi lle bo angen.

39. Cododd rhai ymatebwyr y mater o r?r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wrth orfodi. Mae gan yr HSE gylch gwaith Cymru a Lloegr. Mae wedi dod i'r farn na fyddai'n briodol iddo gymryd grymoedd gorfodi mewn perthynas ? darpariaethau'r Mesur Iechyd ond, fel yn yr Alban, bydd ei arolygwyr yn tynnu unrhyw doriadau amlwg i'r ddeddfwriaeth at sylw'r cyflogwyr ac, os yn briodol, yn rhoi gwybod i awdurdodau lleol o unrhyw doriadau dybryd.

40. Mynegodd llywodraeth leol a busnesau gytundeb ?146;r cynnig y dylai'r dull o orfodi ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth ac annog cydymffurfiaeth. Gwnaethon nhw hefyd ffafrio arolygiadau sy'n cael eu seilio ar risg ac sydd wedi'u cyfuno ag arolygiadau eraill lle bo'n bosibl; nododd ymatebion y llywodraeth leol bod hyn yn unol ag argymhellion adolygiad Hampton ar arolygiadau a gorfodaeth reoleiddiol.

41. Pwysleisiodd ymatebion gan fusnesau'r angen am ddull cyson i orfodaeth ar draws Cymru, barn sy'n cael ei rhannu gan lywodraeth leol. Tynnodd Grwp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru sylw at yr angen i Lywodraeth y Cynulliad gyflwyno mecanweithiau adrodd sy'n dangos cydymffurfiaeth leol, a nododd y byddai hyn yn cynorthwyo wrth gyflawni gorfodaeth gyson. Soniodd CLlLC, Cyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru a Safonau Masnach Cymru y byddai protocol gorfodaeth sy'n nodi arweiniad ar fecanweithiau gorfodaeth sy'n cael eu hawgrymu hefyd o gymorth i gyflawni dull cyson.

42. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu cefnogaeth fras am y trefniadau gorfodi sydd wedi'u cynnig a dull i orfodi nad yw'n wrthdrawiadol. Yng ngoleuni'r sylwadau a ddaeth i law, mae gwaith bellach yn mynd rhagddo gyda grwp a gafodd ei alw gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lunio protocol gorfodi ar gyfer Cymru. Bydd hwn yn nodi gweithdrefnau sy'n cael eu hawgrymu i swyddogion gorfodi awdurdodau lleol eu dilyn, a bydd yn rhoi arweiniad ar gamau sy'n cael eu hargymell gan berchnogion a rheolwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio ?146;r gyfraith.

## Troseddau a chosbau

43. Gwnaeth nifer o ymatebwyr, yn enwedig o'r byd busnes, ymholi ynghylch absenoldeb hysbysiad o gosbau sefydlog am y drosedd o fethu ag atal ysmygu mewn lle di-fwg. Gwnaethon nhw hefyd fynegi'r farn bod lefel y ddirwy ar gyfer y drosedd hon yn anghymesur o gymharu ?efel y ddirwy i unigolion a oedd yn ysmygu mewn lle di-fwg. Fel a gafodd ei nodi yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r troseddau sy'n ymwneud ?146;r ddeddfwriaeth hon wedi'u nodi yn Neddf Iechyd 2006 ac nid ydyn nhw'n fater i'w reoleiddio gan Lywodraeth y Cynulliad. Yn

yr un modd, bydd lefelau'r cosbau, a fu'n destun ymgynghoriad gan Adran Iechyd y DU yn 2005, yn cael eu hymdrin ?hw yn Rheoliadau Di-fwg (Cosbau a Symiau wedi'u Gostwng) a fydd yn cael eu gwneud gan Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Iechyd a bydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr.

## Atodiad A: Sefydliadau Sy'n Ymateb i'r Ymgynghoriad

- Trenau Arriva Cymru Cyf
- ASH yng Nghymru
- ASH Scotland
- Association of British Bookmakers Ltd
- Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, Cymru
- Cymdeithas Swyddogion Cydlynu Cludiant Cymru
- Asthma UK Cymru
- Blacks Leisure Group
- Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent
- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Personol
- Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain
- British Casino Association
- Sefydliad Prydeinig y Galon
- British Holiday & Home Parks Association Ltd
- Cymdeithas Lletygarwch Prydain
- Sefydliad Tafarnwyr Prydain
- Sefydliad Ysgyfaint Prydain - Cymru
- Cymdeithas Feddygol Prydain - Cymru
- Cymdeithas Seicolegol Prydain
- Gwesty Bryn Llewelyn
- Business in Sport & Leisure Limited
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- T?Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerffili
- Cancer Research UK Cymru
- Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd
- Cyngor Tref Caerfyrddin
- Cyngor Iechyd Cymuned Sir Gaerfyrddin
- Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin
- Cartrefi Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru
- Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion
- Siambr Cymru
- Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd
- Dinas a Sir Abertawe
- Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiant Glo
- Conffederasiwn Diwydiannau Prydain Cymru / Wales
- Conffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Grwp Tybaco Conwy
- Gwasanaethau Cefnogi Diwydiannau Creadigol
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cymorth Cymru
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Ddinbych, Gwasanaethau Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd
- Gweithgor Tybaco Sir Ddinbych (Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych)
- Theatr y Dolman, Casnewydd
- Domiciliary Care Association Wales
- Equity
- Family Housing Association (Wales) Ltd
- Ffederasiwn Busnesau Bach
- First Great Western Trains
- Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Lles Sir y Fflint
- Gala Coral Group
- Gallaher Limited
- Green Bay - Talbot Studios (Richard Staniforth)
- Cyngor Iechyd Cymuned Gwent
- Cyngor Iechyd Cymuned Gwent
- Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent
- Gwyl Cadi Ha
- Cyngor Gwynedd, Gwasanaeth Gweinyddol ac Amddiffyn y Cyhoedd
- Cynghrair Gwella Iechyd Gwent
- Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd
- Gyrfa Cymru - Careers Wales
- Help the Hospices
- Hunters and Frankau
- Cyngor Sir Ynys M?li>
- Cadwch Gymru'n Daclus
- Licensed Victuallers' Wales
- Ysbyty Seiciatrig Llanarth Court
- Cymorth Canser Macmillan
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Fforwm Rheoli Tybaco Lleol Merthyr Tudful
- Cymdeithas Genedlaethol Swyddogion Trwyddedu a Gorfodi
- Y Gymdeithas Operatig a Dramatig Genedlaethol
- Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru, yr Adran Weinyddol
- Gwasanaeth T?ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaeth T?ac Achub Gogledd Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
- Cyngor Sir Penfro
- Bwrdd Iechyd Lleol Sir Benfro
- Clwb Pendyffryn
- Philip Morris Limited

- Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a’r Rhondda
- Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a’r Rhondda – Adran Ddamweiniau ac Argyfwng
- Powerlifting Wales
- Fforwm Rheoli Tybaco Powys
- Provincial Grand Lodge of Freemasons (Rhanbarth Dwyreiniol De Cymru)
- Punch Taverns
- Rank Group Gaming Division
- Coleg Brenhinol y Bydwragedd
- Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
- Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
- Grwp Post Brenhinol ccc
- S4C
- Theatr y Sherman
- Partneriaeth Caerdydd Ddi-fwg
- Fforwm Economaidd De Ddwyrain Cymru
- Gwasanaeth T?ac Achub De Cymru
- Cyfarwyddiaeth Llawfeddygaeth ac Anaesthetig, Ysbyty Brenhinol Morgannwg
- LVA Abertawe a’r Cylch
- Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
- Cyngor Tref Dinbych-y-pysgod
- Tesco Stores Ltd
- The Bingo Association
- Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi
- The Imported Tobacco Products Advisory Council
- Yr Amgueddfa Gymreig o Gelfyddyd Modern
- Theatr Mwldan
- Theatrical Management Association
- Tobacco Manufacturers' Association
- Bwrdd Iechyd Lleol a Th?Iechyd Cyhoeddus Lleol Torfaen
- Safonau Masnach Cymru
- Prifysgol Cymru Bangor
- Cyngor Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg
- Canolfan Iechyd Cymru
- Cydweithredu Iechyd Meddwl Cymru
- Grwp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru
- Cynghrair Twristiaeth Cymru
- Cyngres Undebau Llafur Cymru
- Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/ Cyfarwyddwyr Amddiffyn y Cyhoedd Cymru
- Cymdeithas Chwaraeon Cymru
- Cyngor Wrecsam, Rheolwr Cludiant
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam